



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

HS01 POLISI IECHYD A DIOGELWCH GALWEDIGAETHOL

Dyddiad adolygu:	Rhagfyr 2023	Nifer y tudalennau:	40
Awdur(on)	Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb		
Yr Adran Gyfrifol/Cyfarwyddwr:	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol		
Cymeradwywyd gan:	Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol: 10/01/20 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad: 17/03/20 Bwrdd Iechyd BIPBC (drwy weithred y Cadeirydd): 09/12/20, a'i adrodd i'r bwrdd llawn 21/01/21		
Dyddiad cymeradwyo:	Bwrdd Iechyd BIPBC (drwy weithred y Cadeirydd): 09/12/20 a'i adrodd i'r bwrdd llawn 21/01/21		
Cadarnhawyd gan:	Bwrdd Iechyd BIPBC		
Dyddiad cadarnhau:	09/12/20		
Dyddiad gweithredu (yn fyw):	21/01/21		

Dyddiad cwblhau EQIA:	Tachwedd 2019, adolygydd Ionawr 2020					
Dogfennau i'w darllen ar y cyd â'r polisi hwn:	Gweithdrefn Rheoli Iechyd a Diogelwch (Templed) a Pholisïau a Gweithdrefnau cysylltiedig Cwmpas Gwasanaeth/Canllawiau Gweithredol Iechyd a Lles Galwedigaethol					
Newidiadau'r Adolygiad Presennol	Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol newydd i ystyried diweddariadau yn y ddeddfwriaeth, gan roi perchnogaeth Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol i'r rhai sy'n uniongyrchol gyfrifol.					
Yn weithredol am y tro cyntaf:	Mehafin 2010					
Adolygwyd yn flaenorol:	Mehafin 2013	Ebrill/Mai 2014	Mehafin 2015	Mehafin 2016	Mehafin 2017	Mawrth 2020
Gwnaed newidiadau do/naddo:	Do	Do	Naddo	Do	Naddo	Do

GWYBODAETH BERCHNOGOL

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth berchnogol sy'n perthyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Peidiwch â chynhyrchu'r ddogfen hon neu unrhyw ran o'r ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig gan BIPBC.

Cynnwys

DATGANIAD O FWRIAD

1.	CYFLWYNIAD	5
2.	Cwmpas	6
3.	Nod	6
4.	System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	6
	4.1 Cynllunio	6
	4.2 Gwneud	7
	4.3 Gwirio	7
	4.4 Gweithredu	7
5.	Trefniadau Cyffredinol BIPBC ar gyfer Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	7
	5.1 Cynllunio - Polisiâu Iechyd a Diogelwch	8
	5.1.1 Hyfforddiant	9
	5.1.2 Sesiynau Cynefino yn y Gweithle	9
	5.1.3 Hyfforddiant i Gyfarwyddwyr Gweithredol Byrddau Iechyd ac Aelodau Annibynnol	9
	5.1.4 Hyfforddiant i Reolwyr	9
	5.1.5 Rolau Penodol i Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch	10
	5.2 Gwneud - Sicrhau bod Polisiâu'n cael eu Gweithredu	10
	5.2.1 Rheoli Heintiau	11
	5.2.2 Rheoli Diogelwch Tân	11
	5.2.3 Rheoli Contractwyr	11
	5.2.4 Grŵp Diogelwch Dŵr	11
	5.2.5 Grŵp Asbestos	12
	5.2.6 Grŵp Diogelwch	12
	5.2.7 Diogelu Rhag Ymbelydredd	13
	5.2.8 Diweddarau Polisiâu Iechyd a Diogelwch	14
	5.2.9 Adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Eraill	14
	5.2.10 Mudiadau Gwirfoddol	14
	5.3 Gwirio – Systemau Archwilio / Arolygu	14
	5.3.1 Archwilio	15
	5.3.2 Trefniadau Bob Chwarter	14
	5.3.3 Trefniadau Pan Fo Angen	15
	5.3.4 Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Hunan Adolygu	15
	5.3.5 Hunan Asesu Iechyd a Diogelwch	16
	5.4 Gweithredu – Adrodd am Ddamweiniau / Digwyddiadau	16
	5.4.1 Hysbysu am Beryglon	17
	5.4.2 Adnabod Peryglon Mewnol	17
	5.4.3 Asesiadau Risg	17
	5.4.4 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	18
6.	Rolau a Chyfrifoldebau	17
	6.1 Cyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd	17
	6.2 Y Prif Weithredwr	18


6.3	Cyfarwyddwr Gweithredol Lefel Bwrdd Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	18
6.4	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	19
6.5	Gweithredwyr ac Uwch Reolwyr/Cyfarwyddwyr	19
6.6	Cyfarwyddwr Cyfleusterau / Ystadau	19
6.7	Cyfarwyddwr pob Uwch Adran	20
6.8	Cyfarwyddwyr Cynorthwyol / Penaethiaid Gwasanaethau / Cyfarwyddwyr Cyswllt / Timau Rheoli Ysbyty / Timau Rheoli Gwasanaethau	20
6.9	Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb	22
6.10	Pennaeth Iechyd a Diogelwch	22
6.11	Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch	23
6.12	Rheolwr/Tîm Codi a Chario	23
6.13	Rheolwyr/Arweinwyr Iechyd a Diogelwch, Risg Ardal, Rheolaeth Glinigol	24
6.14	Pennaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol	24
6.15	Atal heintiau	25
6.16	Pennaeth Rheoli Risg	25
6.17	Cyfarwyddwr/Rheolwr Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi	25
6.18	Rheolwyr Adran	26
6.19	Cyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch/Arweinwyr Ardal (Hyrwyddwyr)	28
6.20	Pennaeth Diogelwch	29
6.21	Rheolwr Achos Trais ac Ymddygiad Ymosodol	29
6.22	Pennaeth Diogelwch Tân/Cynghorwyr	29
6.23	Gweithwyr	29
6.24	Partneriaid Undebau Llafur a Chynrychiolwyr Achrededig Diogelwch	30
6.25	Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch nad ydynt o Undebau Llafur	31
6.26	Contractwyr Gofal Sylfaenol	31
6.27	Gwasanaethau a Gomisiynir	32
7.	Sicrwydd	32
7.1	Strwythur Sicrwydd	32
7.2	Y Bwrdd Iechyd	32
7.3	Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	33
7.4	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	33
8.	Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol	34
9.	Atodiad 2: Strwythur Adrodd y Bwrdd	39
10.	Cyfeiriadau	40

DATGANIAD O FWRIAD

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a elwir wedi hyn y Bwrdd Iechyd) yn bodoli i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd diogel o ansawdd uchel i'r gymuned leol. Mae'n cydnabod ei gyfrifoldebau cyfreithiol a moesol mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Bydd, mewn ymgynghoriad â'i weithwyr, yn creu ac yn cynnal amgylchedd gwaith a fydd 'cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol', yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr ac unrhyw unigolion eraill y gallai ei weithgarwch gwaith effeithio arnynt. Y Prif Weithredwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac am weithredu'r polisi hwn a chanllawiau cysylltiedig yn llwyddiannus. Mae'r Prif Weithredwr yn gweithredu drwy'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr Ardal, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, Rheolwyr Gyfarwyddwyr, Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau priodol.

Swyddogaeth reoli yw rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac fel y cyfryw, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau gwelliant cynyddol mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol drwy ddilyn y trefniadau corfforaethol a wneir yn y polisi hwn a gweithredu'r system reoli Iechyd a diogelwch galwedigaethol (Cynllunio, Gwneud Gwirio a Gweithredu). Mae rheolwyr yn uniongyrchol atebol am atal damweiniau, anafiadau a salwch galwedigaethol yn ogystal ag atal difrod i eiddo BIPBC, yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae disgwyl i bob aelod o staff gydweithredu drwy gymryd gofal rhesymol am eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd, a chydymffurfio â'r rheoliadau a systemau gwaith sydd yn eu lle i ddiogelu'r holl weithwyr ac eraill yn y gweithle.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgynghori'n effeithiol â gweithwyr ar faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch galwedigaethol. Bydd BIPBC yn sicrhau bod gan weithwyr yr wybodaeth, y cyfarwyddyd a'r hyfforddiant addas i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Bydd pob gweithiwr yn cael offer, peiriannau a chyfarpar diogel, a bydd systemau addas yn eu lle ar gyfer trin, storio sylweddau ac offer yn ddiogel. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod mynedfeydd ac allanfeydd digonol o safleoedd, a bod cyfleusterau lles addas. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn adolygu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer rheoli Iechyd, diogelwch a lles yn effeithiol ac effeithlon o leiaf unwaith bob blwyddyn neu'n gynt os bydd newidiadau sylweddol. Mae'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd wedi ymrwymo i wella a datblygu diwylliant dysgu lle mae Iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth allweddol sy'n cael eu hystyried lawn mor bwysig ag ansawdd, gofal clinigol a darparu gwasanaethau.

Signed 

Chief Executive Officer

1. CYFLWYNIAD

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch a'r dull strategol yn cofleidio'r cysyniad o Iechyd a Diogelwch synhwyrol drwy sicrhau bod mesurau rheoli yn gymesur â risg. Mae ymwybyddiaeth yn allweddol i sicrhau bod staff yn gallu cyflawni blaenoriaethau eu gwasanaeth tra bod risgiau'n cael eu rheoli mewn modd synhwyrol a chymesur sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gymryd pob cam ymarferol sy'n gyson â darparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn diogelu ei gleifion, ymwelwyr a staff rhag anaf neu salwch ar y safle. Bwriad y Polisi yw darparu amodau gwaith iach a diogel i'r holl staff a chadw at, a bodloni gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc.1974 a Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007. Yn unol â'r amcan hwn bydd y Bwrdd yn:

- Cadw at ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch gweithwyr yn y gwaith
- Achosi i'w weithwyr, y rheolwyr a'r staff i gadw ato
- Sicrhau bod addysg a hyfforddiant digonol at y diben hwn
- Sicrhau bod unrhyw ddamweiniau sy'n digwydd, ni waeth pa mor fach ydynt, yn cael eu cofnodi'n llawn, eu hymchwilio, a lle bo angen, eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Er mwyn darparu'r cyfleusterau priodol i gleifion, a sicrhau bod anafiadau personol a pheryglon i iechyd staff ac eraill yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl, mae'n rhaid i reolwyr a staff gydweithio i sicrhau amgylchedd gwaith diogel. Bydd y Bwrdd Iechyd felly, yn disgwyl i bob aelod o staff arfer cyfrifoldebau i gynnal amodau gwaith iach a diogel drwy:

Ofalu'n rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill y gall eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod effeithio arnynt.

1. Cydweithredu gyda'u cyflogwr fel y bo angen i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. (1974)
2. Defnyddio'r holl gyfarpar diogelwch, offer a dillad diogelwch a ddarperir
3. Helpu i lunio gweithdrefnau diogelwch a pholisïau diogelwch a chadw atynt

Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod cyngor a chymorth cynhwysfawr ar gael ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a bod trefniadau'n bodoli ar gyfer nodi a, lle bynnag y bo'n ymarferol, ddileu neu leihau peryglon. Bydd hyn yn seiliedig ar System Rheoli Diogelwch HSE HSG65, egwyddorion Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu, a Chynllun Strategaeth 3 blynedd Iechyd a Lles. Bydd y broses a ddisgrifir yn y Polisi hwn yn helpu lleihau'r tebygolrwydd o ddamweiniau ac afiechyd, a hefyd yn helpu staff i roi mwy o amser i ofalu am gleifion, yn helpu lleihau gwastraff ariannol ac yn helpu gwella ansawdd y gofal a chanlyniadau a roddir i wasanaethau clinigol a gwasanaethau cymorth anghlinigol. Mae'r cynllun 3 blynedd yn seiliedig ar ddata credadwy o amrywiaeth o ffynonellau a ddefnyddiwyd i nodi'r angen am newid. Yn yr un modd, bydd methodoleg gwella ansawdd yn cael ei defnyddio i geisio cyflawni newid.

2. CWMPAS

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i holl adeiladau a mentrau'r Bwrdd Iechyd ac i gomisiynwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr neu ymwelwyr â'i safleoedd.

3. NOD

Nod cyffredinol y polisi hwn yw hyrwyddo diwylliant diogelwch cadarnhaol a pharhaus ac annog perchnogaeth ar bob lefel o lechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn ogystal â datblygu gwasanaethau cymorth cynaliadwy o ansawdd uchel a systemau sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a deddfwriaeth berthnasol arall. Cyflawnir hyn drwy arweinyddiaeth gref, weladwy a chyson, gan reoli diogelwch mewn modd amserol, effeithlon, effeithiol a fforddiadwy. Bydd hyn yn sicrhau bod y sefydliad yn bodloni ei rwymedigaethau deddfwriaethol i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion, staff, ymwelwyr, eiddo ac eraill yn ogystal ag enw da'r sefydliad. Bydd hyn hefyd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflawni a, lle bo'n bosibl, rhagori ar y rhwymedigaethau statudol sydd ar y sefydliad i ddiogelu pawb a allai fel arall gael eu heffeithio gan weithredoedd a/neu esgeulustod BIPBC.

4. SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH GALWEDIGAETHOL

Mae'r System Rheoli Diogelwch yn seiliedig ar broses HSG65 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sef Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu. Disgrifir y dull isod:

4.1 Cynllunio - Mae hon yn elfen allweddol wrth adeiladu'r sylfeini effeithiol sydd eu hangen ar gyfer y System Rheoli Diogelwch. Mae datblygu polisïau, canllawiau clir ac arferion gweithio diogel sy'n cwmpasu pob agwedd ar system reoli'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn rhan allweddol o'r broses gynllunio. Nod y strategaeth tair blynedd yw mesur llwyddiant y cynlluniau iechyd a diogelwch galwedigaethol trwy werthuso perfformiad yn systematig yn erbyn y Polisi. Bydd ystod o Bolisïau'n cael eu cynllunio i sicrhau y gellir eu harchwilio. Bydd y strategaeth yn mesur y gwaith rhagweithiol ac adweithiol a wneir gan arweinwyr y sefydliad. Bydd rhaglen cadw golwg ar iechyd yn galluogi'r Bwrdd i nodi'r risgiau a ddaw i'r amlwg o ddangosyddion hysbys megis gwaith nos, latecs, dermatitis, dirgryniad, asesiadau sŵn, adborth ar hyfforddiant, arolygiadau ac archwiliadau rhagweithiol a systemau adolygu hunan archwiliad. Pan fydd damweiniau'n digwydd byddant yn cael eu hadrodd mewn modd amserol i'r awdurdodau gorfodi a byddwn yn edrych ar wersi a ddysgwyd, nid mewn un maes yn unig, ond ledled BIPBC.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys datblygu safle mewnwyd effeithiol i gyflwyno'r wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf. Bydd datblygu gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Diogel o Ansawdd (SEQOSH) cwbl achrededig yn rhan o'r broses gynllunio. Mae angen darpariaeth addas ar gyfer tân, diogelwch ac argyfyngau eraill. Mae angen i bawb sy'n rhannu ein gweithle gydweithredu a bydd BIPBC yn cydlynu'r cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys contractwyr ac isgontractwyr er mwyn ei gwneud hi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch a sut mae'n cael ei fonitro. Mae'n ofynnol i'r

cynlluniau nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol ar lefel safle am faterion iechyd a diogelwch galwedigaethol.

4.2 Gwneud – Mae'r adran 'gwneud' yn ei gwneud hi'n ofynnol i gadw at ddarnau penodol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd er enghraifft, bioberyglon, peryglon amgylcheddol, ymbelydredd, legionella, asbestos, COSHH, dirgryniad, pseudomonas ac ati. Mae angen system werthuso i roi gwybod i'r Bwrdd bod y systemau sydd ar waith yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth ym mhob maes gwasanaeth. Mae hyn yn berthnasol i'r holl staff a bydd unrhyw fylchau sylweddol yn cael eu nodi i ddatblygu'r proffil risg, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Bydd y strategaeth yn nodi beth all achosi niwed yn y gweithle, pwy all gael ei niweidio a sut, a beth y dylai'r unigolyn ei wneud i reoli'r risg. Mae'r bobl a'r offer cywir yn y lle iawn yn allweddol i fusnes llwyddiannus ac i strategaeth iechyd a diogelwch rhagweithiol. Nod y strategaeth yw nodi'r risgiau uchaf, eu graddio mewn trefn a phenderfynu ar gynllun gweithredu i liniaru risgiau o'r fath. Mae gan bob Uwch Arweinydd y gallu i ddylanwadu ar ddiwylliant diogelwch, penderfynu ar y mesurau ataliol a diogelu sydd eu hangen, a'u rhoi ar waith. Bydd y Rheolwr a'r goruchwylwyr yn fodelau rôl i sicrhau bod trefniadau'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn eu lle bob amser. Mae'r Polisi hwn yn rhoi fframwaith clir ar gyfer yr hyn y mae'n ofynnol i arweinydd ei wneud.

4.3 Gwirio - Bydd yr elfen hon yn rhoi pwyslais ar newid mesur perfformiad o fod yn adweithiol i fod yn rhagweithiol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sefydlu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn rhoi tystiolaeth bod y cynlluniau diogelwch a roddwyd ar waith yn gweithio. Mae angen rhoi'r cynlluniau ar waith a sicrhau eu bod yn eu lle, nid yw 'gwaith papur' ar ei ben ei hun yn fesur perfformiad da. Realiti system iechyd a diogelwch galwedigaethol yw'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad. Bydd y Bwrdd Iechyd yn asesu pa mor dda y mae'r risgiau'n cael eu rheoli drwy arolygiadau, teithiau, archwiliadau, adolygiadau hunanasesu a dadansoddiad bylchau blynyddol o'r holl ddeddfwriaeth, i sicrhau bod yr hyn y bwriadwyd iddo ddigwydd wedi'i roi ar waith. Bydd adroddiadau ar weithgareddau a chanfyddiadau yn cael eu hadrodd yn chwarterol ac yn flynyddol i'r Bwrdd trwy'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a'r strwythur Llywodraethu. Bydd ymchwiliadau Dadansoddi Gwraidd y Broblem yn nodi achosion damweiniau a digwyddiadau, neu rai a fu bron â digwydd. Bydd camau gweithredu Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn cael eu cofnodi'n ganolog i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni a bod y risg i'r un ddamwain/digwyddiad ddigwydd eto yn cael ei lleihau. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn gwirio bod Uwch Gyfarwyddwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ar eu cyfrifoldebau corfforaethol.

4.4 Gweithredu - Adolygu system reoli'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ym mhob maes gwasanaeth trwy ddadansoddi'r bylchau. Bydd y Bwrdd Iechyd yn nodi a weithredwyd yr hyn a gynlluniwyd mewn gwirionedd. At hynny, bydd y Bwrdd Iechyd yn dysgu o ddamweiniau a digwyddiadau, data afiechyd, gwallau a phrofiad perthnasol. Bydd rhannu arferion gorau sefydliadau eraill yn sicrhau y dilynir arfer gorau. Bydd rhan 'gweithredu' y broses yn cynnwys ailymweld â chynlluniau, hyfforddiant, dogfennau polisi ac asesiadau risg i weld a ydynt yn ddigonol ac yn parhau i fod yn berthnasol wrth reoli'r peryglon yn y tarddle. Bydd angen gweithio i sicrhau bod asesiadau risg yn benodol i safle ac nid yn rhai

cyffredinol eu natur. Bydd hyn yn ei dro, yn sicrhau bod cylch parhaus o welliant yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

5. TREFNIADAU CYFFREDINOL BIPBC AR GYFER IECHYD A DIOGELWCH GALWEDIGAETHOL

Mae cynllunio yn rhan annatod o weithrediadau'r Bwrdd Iechyd ac mae'r Bwrdd yn cydnabod bod deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo wneud trefniadau ar gyfer cynllunio effeithiol.

5.1 Cynllunio - Polisiâu Iechyd a Diogelwch

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cyfres gynhwysfawr o bolisiâu i ategu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, a rhaid i'r holl staff gadw atynt a'u gweithredu'n effeithiol:

- Polisi Asbestos
- Polisi Adeiladau, Cynllunio a Rheoli
- Polisi Rheoli Contractwyr
- Polisi Rheoli Sŵn yn y Gweithle
- Polisi Mannau Cyfyng
- Polisi Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
- Polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Polisi Gyrru yn y Gweithle
- Polisi Trydan yn y Gweithle
- Polisi Cymorth Cyntaf yn y Gweithle
- Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio - Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio
- Polisi a Gweithdrefnau Adrodd a Rheoli Digwyddiad (Gweithio i Wella)
- Polisi Brechu a Bod yn Agored i Nodwyddau / Hylifau Corfforol
- Polisi Sensiteiddio Latecs
- Polisi Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi
- Polisi Gweithiwr Unigol
- Polisi Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol
- Polisi Codi a Chario
- Polisi Iechyd Meddwl, Lles a Rheoli Straen
- Polisi Mamau Beichiog a Mamau Newydd
- Polisi Cadw Golwg ar Iechyd Galwedigaethol
- Cwmpas y Gwasanaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol / Canllawiau Gweithredol
- Gweithdrefn Imiwneiddio a Sgrinio Galwedigaethol / Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
- Polisi Cyfarpar Diogelu Personol
- Polisi Rheoli Diogelwch Tân
- Polisi Rheoli Systemau Dŵr Diogel
- Polisi Darparu a Defnyddio Offer Gwaith
- Strategaeth Rheoli Risg
- Polisi Arwyddion ac Arwyddion Diogelwch
- Polisi Diogelwch yn y Gweithle
- Polisi Llithro, Baglu a Chwyrmpo
- Polisi Dirgryndod yn y Gweithle

- Polisi Trais yn y Gweithle
- Polisi Gweithio ar Uchder
- Polisi Pobl Ifanc yn y Gweithle

Bydd y polisïau uchod yn cael eu defnyddio fel fframwaith i Archwilio'r System Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol sydd ar waith. Maent yn ddogfennau gweithredol ac mae'n ofynnol iddynt fod yn realistig a chael eu gweithredu'n effeithiol gan yr holl staff a chontractwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd.

5.1.1 Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant yn cael ei seilio ar ddadansoddi anghenion hyfforddi. Bydd yr hyfforddiant yn addas ac yn ddigonol i alluogi staff i nodi'r peryglon a'r risgiau y gallent eu hwynebu yn y gweithle a sut i ymdrin â nhw. Bydd hyn yn berthnasol i bob aelod o staff. Dylai'r hyfforddiant fod yn seiliedig ar lefel y cymhwysedd sydd ei angen ar gyfer y meysydd gwasanaeth, yr unigolion dan sylw a lefel yr arbenigedd sydd ei angen.

Bydd yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Cyswllt/Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a Phenaethiaid Gwasanaeth Uwch Adrannau fynychu hyfforddiant penodol ar Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007 er mwyn deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf honno. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo penderfyniadau yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar ganlyniadau diogelwch. Dylai hyfforddiant, gwybodaeth, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth fod i'r lefel briodol o arbenigedd sydd ei angen. Mae angen darparu hyfforddiant addas yn ystod sesiynau cynefino. Mae hefyd angen nodi Arweinwyr Iechyd a Diogelwch (Hyrwyddwyr) ym mhob maes gwasanaeth a chefnogi gwasanaethau a rheolwyr i gyflawni eu cylch gwaith ar ddiogelwch.

5.1.2 Sesiynau Cynefino yn y Gweithle

Bydd pob gweithiwr newydd yn elwa o sesiwn cynefino cynhwysfawr i'r gweithle. Bydd y sesiynau cynefino hyn yn canolbwyntio ar ddyletswyddau'r unigolyn yn ogystal â rhoi gwybodaeth i aelodau staff am y peryglon a'r risgiau y gallent eu hwynebu a'r mesurau rheoli sydd yn eu lle i liniaru risgiau o'r fath. Bydd asesiadau risg yn y gweithle ar gael i weithwyr newydd trwy'r rheolwr neu arweinydd y gwasanaeth.

5.1.3 Hyfforddiant i Gyfarwyddwyr Gweithredol Byrddau Iechyd ac Aelodau Annibynnol

Mewn ymateb i anghenion hyfforddi a nodwyd, bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd addas a digonol i Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â Rheoli Iechyd a Diogelwch. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau o dan adran 37 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007.

5.1.4 Hyfforddiant i Reolwyr

Trwy ddadansoddi anghenion hyfforddi, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau, bod rheolwyr yn cael hyfforddiant Iechyd a Diogelwch perthnasol i'w rôl rheoli diogelwch

iechyd o ddydd i ddydd, er enghraifft darparu cwrs 'Sefydliad Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol' (IOSH) a 'Rheoli'n Ddiogel'. Bydd rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch, asesiadau risg a systemau gwaith diogel fel y bo'n berthnasol, yn cael eu dwyn i sylw eu staff a'u bod yn cadw atynt. Byddant yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi iechyd a Diogelwch.

5.1.5 Rolau Penodol i Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei nodi gan Reolwyr a'i roi i weithwyr o ganlyniad uniongyrchol i ddadansoddi anghenion hyfforddi a'r broses asesu risg. Bydd yr Adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn rhoi cyngor ac arweiniad o ran yr hyfforddiant sydd ei angen. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys (ond nid yw'n cael ei gyfyngu) i'r canlynol:

- Asesu Risg
- Cynefino a'r Gweithle
- Cyfarpar Diogelu Personol
- Darparu a Defnyddio Offer Gwaith
- Gweithio ar Uchder
- Mannau Cyfyng
- Rheoliadau Trydan
- Sŵn yn y Gweithle
- Cyfarpar Sgrin Arddangos
- Codi a Chario
- Trais ac Ymddygiad Ymosodol
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), Digwyddiadau Halogiad Hylif y Corff
- Straen yn y Gweithle
- Llesiant

Cedwir cofnodion o'r hyfforddiant a gafwyd mewn man canolog i'w harchwilio a'u hadolygu.

5.2 Gwneud - Sicrhau bod Polisiâu'n cael eu Gweithredu

Mae strategaeth 3 blynedd a chynllun gweithredu wedi'u datblygu fel fframwaith ar gyfer cynllun gwella cyffredinol y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Bydd hyn yn cefnogi datblygu system iechyd a diogelwch galwedigaethol effeithiol. Fe'i dyfeisiwyd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Bydd y cynllun manwl yn sicrhau bod yr amcanion a nodir yn y Cynllun Strategol yn cael eu bodloni a bod camau gweithredu'n cael eu hadnabod. Byddant yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheoliad gan y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Mae'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch yn adrodd yn uniongyrchol ar faterion risg ac iechyd a diogelwch galwedigaethol i'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad sydd yn ei dro yn adrodd i'r Bwrdd Iechyd.

5.2.1 Rheoli Heintiau

Bydd gan y Grŵp Strategol Diogelu Rhag Heintiau gyfrifoldeb parhaus am y Polisi Rheoli Heintiau.

5.2.2 Rheoli Diogelwch Tân

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ganddo rwymedigaeth i gymryd rhagofalon addas yn erbyn tân yn ei eiddo yn unol â'r canllawiau swyddogol a'r gofynion statudol, ac mae ganddo atebolrwydd cyffredinol am weithgareddau'r Sefydliad. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelwch tân cyfredol a lle bo'n briodol, bod canllawiau Cod Tân yr Adran Iechyd yn cael eu gweithredu ym mhob un o adeiladau BIPBC. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau'r Bwrdd Iechyd bod mesurau o'r fath yn cael eu bodloni. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yn hyrwyddo materion diogelwch tân ar lefel y Bwrdd, sy'n cynnwys cynnig rhaglenni gwaith sy'n ymwneud â diogelwch tân i'w hystyried fel rhan o'r cynllun busnes blynyddol. Y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau yw Rheolwr Diogelwch Tân y Bwrdd Iechyd ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal a chadw ei adeiladau yn unol â'r gofynion cyfreithiol cyfredol. Yr Uwch Swyddog Ystadau enwebedig sy'n gyfrifol am Ddeddfwriaeth a Chydymffurfiaeth ar ran BIPBC a ganddo ef mae'r cyfrifoldeb am weithgareddau o ddydd i ddydd sy'n gysylltiedig â diogelwch tân gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, hyfforddiant, asesu risg a chynnal a chadw offer. Mae Cynghorydd Diogelwch Tân pob maes yn gyfrifol am ddarparu arbenigedd technegol i'r holl staff er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

5.2.3 Rheoli Contractwyr

Bydd angen i gontractwyr gael gwerthusiad cymhwysedd effeithiol, adolygiadau cyn cyflogaeth a sesiwn cynefino gweithwyr safle. Bydd y sesiwn gynefino lleol hefyd yn gofyn i'r Adran Ystadau/Cyfleusterau neu Brosiectau Cyfalaf adolygu dogfennaeth y contractwyr yn drylwyr i asesu a yw'r asesiadau risg a datganiadau dull yn addas. Dylai aelod o staff cymwys o'r Adran Brosiectau Cyfalaf neu'r Adran Ystadau a Chyfleusterau roi'r sesiwn gynefino i'r contractwr. Mae'n ofynnol i bob contractwr adrodd i'r Adran Ystadau a Chyfleusterau i lofnodi i mewn a chael gwybodaeth berthnasol am y man y byddant yn gweithio ynddo (ac mae hyn yn berthnasol i TG neu gontractwyr eraill ar y safle). Bydd hyn yn berthnasol os yw'r contractwr yn ymwneud a'r adeiladwaith neu os yw'n bosibl i waith y contractwr effeithio ar gyfanrwydd yr adeilad neu'r prosesau y tu mewn iddo. Bydd Ystadau a Chyfleusterau yn rheoli system trwydded waith lle nodir perygl sylweddol, gwaith ar uchder, mannau cyfyng, tân, gwaith poeth ac ati. Bydd hyn yn gofyn am weithredu system effeithiol o lofnodi wrth gyrraedd a chyn ymadael.

5.2.4 Grŵp Diogelwch Dŵr

Bydd y Grŵp Diogelwch Dŵr yn gyfrifol am gydlyn a goruchwyllo rheoli Systemau Dŵr yn ddiogel yn unol â Chod Ymarfer L8 a gymeradwywyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r systemau dŵr a gweithrediad y Polisi yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles cleifion/ymwelwyr a staff yn holl adeiladau BIPBC. Bydd y Grŵp Diogelwch Dŵr yn gweithio'n agos gyda Grwpiau Clinigol/Atal

Heintiau, Ystadau/Cyfleusterau ac Adrannau Corfforaethol i sicrhau bod trefniadau addas a digonol yn eu lle ar gyfer rheoli'r holl systemau dŵr yn ddiogel. Mae angen adolygu asesiadau risg mewn perthynas â systemau dŵr a gweithredu ar y canfyddiadau. Dylid uwchgyfeirio unrhyw fater a nodwyd sy'n arwain at risg o legionella; pseudomonas neu unrhyw bathogen arall sy'n cael ei gludo gan ddŵr, i'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol drwy'r system lywodraethu.

5.2.5 Grŵp Rheoli Asbestos

Mae'r Grŵp Rheoli Asbestos yn nodi ac yn cydnabod cyfrifoldebau BIPBC (fel Deiliad Dyletswydd) o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ar asbestos, ac mae ganddo rwymedigaeth foisol i ddileu neu reoli'r risg o ddod i gysylltiad ag asbestos. Diben y grŵp hwn yw darparu'r modd y mae rheolwyr yn datblygu ac yn cynnal y broses rheoli asbestos ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp yn sicrhau'r canlynol:

- Cynnal dull integredig o nodi a rheoli peryglon asbestos yn y gweithle ar draws y sefydliad.
- Rhoi sicrwydd o ran rheoli risg asbestos yn effeithiol ar draws yr holl weithgareddau a chyfleusterau.
- Datblygu a monitro'r cynllun rheoli asbestos a mynd i'r afael â risgiau sylweddol sy'n ymwneud ag asbestos yn y sefydliad.
- Datblygu'r Polisi Asbestos a'r trefniadau ategol ymhellach.
- Monitro perfformiad o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol Rheoli Asbestos yn y Bwrdd Iechyd.

Mae'r rolau o fewn y Grŵp fel a ganlyn:

Swydd	Cyfrifoldeb
Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau	Deiliad Dyletswydd
Pennaeth Ystadau Gweithredol	Yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi a'r cynllun rheoli asbestos
Rheolwyr Ystadau Gweithredol (Ardaloedd y Canol, y Dwyrain a'r Gorllewin)	Cymhwyso'r cynllun rheoli asbestos ar lefel weithredol
Uwch Swyddog Ystadau – Rheoli Asbestos	Yn gyfrifol am gymhwyso pecynnau gwaith cydymffurfio statudol asbestos
Datblygu Ystadau	Cymhwyso'r cynllun rheoli asbestos yn ystod gwaith ailddatblygu cyfalaf

5.2.6 Grŵp Diogelwch

Mae'r Grŵp Diogelwch yn cadw golwg gwrthrychol ar reoli swyddogaethau diogelwch o fewn y sefydliad gan ei awdurdodi i wneud penderfyniadau ar ran yr holl wasanaethau, swyddogaethau ac adrannau o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp yn

cadw at gyfres o amcanion y cytunwyd arnynt gan gynnwys (ond heb fod wedi eu cyfyngu), y canlynol:

- Datblygu dull cymunedol o ddiogelu ac atal troseddau, gan gydweithio i sicrhau bod amgylchedd diogel sy'n amddiffyn cleifion, staff, ymwelwyr ac eiddo yn ogystal ag asedau ffisegol y Bwrdd Iechyd.
- Gweithio ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol er mwyn hyrwyddo polisi diogelwch effeithiol.
- Hyrwyddo arfer da ar draws yr holl asiantaethau a datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r materion sy'n berthnasol i bob asiantaeth.
- Sefydlu partneriaethau â grwpiau lleihau trosedd a diogelwch cymunedol i helpu hybu ymwybyddiaeth o ddiogelwch ymhlith holl weithwyr y Bwrdd Iechyd ynghyd â chleifion ac ymwelwyr â'r sefydliad, gan gynnwys contractwyr i holl safleoedd y Bwrdd Iechyd.
- Cyfrannu'n gyfreithiol ac yn effeithiol at gasglu a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.
- Cefnogi mentrau'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru a chyfrannu at fynd i'r afael â thrais yn y gymuned.
- Hyrwyddo Mentrau Gweithredol er enghraifft; 'Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd' a fydd yn sicrhau bod cleifion, staff ac ymwelwyr yn teimlo, ac yn wir, yn ddiogel yn eu hamgylchedd gwaith ac yn ystod eu hymweliadau â safleoedd y Bwrdd Iechyd.
- Lleihau troseddau (a bod ag ofn trosedd) ar safleoedd y Bwrdd Iechyd a, thrwy ei waith, o fewn cymunedau ar draws maes gweithredu'r Bwrdd Iechyd.
- Monitro ac adolygu arfer cyfredol, adborth gan wasanaethau, swyddogaethau ac adrannau a nodi anawsterau gweithredol.
- Sefydlu a chynnal sianeli cyfathrebu effeithiol â gwasanaethau, swyddogaethau ac adrannau perthnasol, ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â diogelwch.
- Nodi anghenion adnoddau a chyllid posibl.
- Parhau i fonitro ac adolygu polisi diogelwch, strategaeth, cynlluniau a chynnydd y Bwrdd Iechyd.
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gynnydd strategaeth ddiogelwch y Bwrdd Iechyd, y system rheoli diogelwch sydd ar waith a'i heffeithiolrwydd ac argymell unrhyw welliannau y gallai fod eu hangen.
- Uwchgyfeirio materion i'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn ôl yr angen.

5.2.7 Diogelu Rhag Ymbelydredd

Y Bwrdd Iechyd fel y cyflogwr sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu rhag ymbelydredd. Mae sawl darn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwaith gydag ymbelydredd ïoneiddio ac ymbelydredd nad yw'n ïoneiddio. O ran Iechyd a Diogelwch, y prif reoliadau ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio yw Rheoliadau Ymbelydredd ïoneiddio 2017 (IRR17). Mae'n gosod nifer o ofynion ar BIPBC i sicrhau defnydd diogel o ymbelydredd ïoneiddio. O dan IRR17, mae BIPBC wedi penodi Ymgynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd i roi cyngor cydymffurfio. Hefyd ar gyfer pob maes gwaith, rhaid sefydlu rheolau lleol a phenodi Goruchwylwyr Amddiffyn rhag Ymbelydredd i sicrhau y cedwir at y rheolau lleol.

Mae rhagor o ddeddfwriaeth yn ymdrin â dod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017), defnyddio a chael gwared â sylweddau ymbelydrol (Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 fel y'i diwygiwyd yn 2018), a chludo sylweddau ymbelydrol (Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus ac Offer Cludadwy dan Bwysedd 2009, diwygiwyd 2019) fel y manylir ym Mholisi RP01 BIPBC.

Mae'r holl faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn rhag ymbelydredd Ïoneiddio ac ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio yn cael eu goruchwyllo gan y Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd.

Mae'r pwyllgor yn rhoi arweiniad a chyfeiriad mewn perthynas â diogelu rhag ymbelydredd i'r sefydliad cyfan, gan roi sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol, canllawiau arfer da a safonau allanol, monitro ac archwilio trefniadau diogelu rhag ymbelydredd gan gynnwys adolygu dosau ymbelydredd staff a digwyddiadau ymbelydredd sy'n effeithio ar staff, cleifion neu'r cyhoedd. Bydd y pwyllgor yn cyflwyno Adroddiad Blyneddol i'r is-grŵp effeithiolrwydd clinigol ac Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

5.2.8 Diweddaru'r Polisi Iechyd a Diogelwch

Bydd y Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei ddiweddaru i gynnwys newidiadau yn y rheoliadau a'r ddeddfwriaeth a bydd yn cael ei adolygu o leiaf bob tair blynedd gan y Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb.

5.2.9 Adroddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Eraill

Bydd y Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb yn sicrhau y rhoir copi o holl adroddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r Cyfarwyddwr neu Reolwr priodol i'w gweithredu a bydd hefyd yn cydlynu ymateb ffurfiol y Bwrdd Iechyd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

5.2.10 Mudiadau Gwirfoddol

Mae'n ofynnol i bob mudiad gwirfoddol sy'n gweithredu ar y cyd neu ochr yn ochr â'r Bwrdd Iechyd i gael polisiau addas, asesiadau risg, hyfforddiant/cynefino ac arferion gweithio'n ddiogel sy'n cyd-fynd â gofynion y Polisi hwn. Mae'n rhaid iddynt gydweithredu'n llawn â chyfarwyddiadau a chanllawiau BIPBC mewn perthynas â'r Polisi hwn gan gynnwys gweithdrefnau tân ac argyfwng. Gall unigolion cymwys o BIPBC gynnal adolygiadau cyfnodol o wasanaethau yn ôl yr angen i sicrhau bod y sefydliadau yn cadw at ddeddfwriaeth briodol a chodau ymarfer cymeradwy.

5.3 Gwirio – Systemau Archwilio / Arolygu

Mae'n ofynnol i Arweinwyr Gweithrediadau a Rheolwyr Adran sicrhau bod y trefniadau canlynol ar waith er mwyn rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol yn eu maes cyfrifoldeb. Er mwyn sicrhau eglurder, rhannwyd y trefniadau hyn yn drefniadau blyneddol, trefniadau bob chwarter, a threfniadau fel bo angen

5.3.1 Archwilio

Mae angen i Reolwyr Adran sicrhau eu bod yn cydweithredu'n llwyr â'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn ystod y broses archwilio. Cynhelir archwiliadau blynyddol o'r meysydd gwaith a'r adrannau gan y Tîm Iechyd a Diogelwch gan ddefnyddio pro forma archwilio Rheoli Iechyd a Diogelwch neu ddull dansoddi'r bylchau. Bydd canlyniadau'r archwiliadau yn cael eu bwydo'n ôl i Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch a fydd yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Yn dilyn y broses archwilio, bydd camau gweithredu penodol yr Uwch Adrannau hefyd yn cael eu trafod yn y Grwpiau Iechyd a Diogelwch Uwch Adrannol perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn monitro cydymffurfiaid Iechyd a Diogelwch sefydliadol. Bydd sicrwydd annibynnol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyfranogiad yn y Safonau Iechyd a Gofal ac adroddiadau perfformiad a ddarperir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol yn dilyn arolygiadau ac archwiliadau o'r Bwrdd Iechyd.

5.3.2 Trefniadau bob Chwarter

Dylid cynnal arolygiadau o bob adran a maes o fewn eu meysydd cyfrifoldeb gan ddefnyddio pro forma arolygu gweithleoedd y Bwrdd Iechyd. Rhaid i faterion a nodir yn ystod yr arolygiadau chwarterol na ellir eu datrys yn lleol gael eu huwchgysfeirio i grŵp Iechyd a Diogelwch yr Uwch Adran berthnasol neu gyfarfodydd pwyllgor neu gyfatebol i'w datrys neu, i'w huwchgysfeirio drwy strwythur llywodraethu'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

5.3.3 Pan Fo Angen

Dylai rheolwyr gwblhau asesiadau risg ar gyfer yr holl weithgarwch a wneir gan eu gweithwyr lle mae'n 'rhagweladwy' y gallai unigolion ddioddef niwed sylweddol. Gall hyn fod wrth gyflwyno cynnyrch neu weithgarwch newydd. Mae'n bosibl y bydd angen i reolwyr gydweithredu ag adrannau eraill i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio yn eu maes cyfrifoldeb nhw nad ydynt yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt, asesiadau risg yn eu lle ar gyfer y gweithgareddau y maent yn eu cyflawni.

5.3.4 Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Hunan Adolygu

Bydd Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnal Adolygiad Iechyd a Diogelwch ffurfiol o bob Adran o fewn eu maes. Mae amllder yr adolygiadau yn seiliedig ar lefel gyffredinol y risg a nodwyd o'r adolygiadau blaenorol neu ymchwiliadau i ddigwyddiadau, cofnodion cofrestr risg neu Hunanasesiad Iechyd a Diogelwch yr Adran, fel a ganlyn:

Band sgôr	Statws RAG cyfatebol	Amllder
0% to 64%	Coch	6 mis
65% to 84%	Oren	12 mis
85% to 100%	Gwyrdd	24 mis

Oni bai bod amgylchiadau eithriadol (e.e. yn dilyn digwyddiad sylweddol neu fod yn destun i raglen Dadansoddi'r Bylchau Iechyd a Diogelwch), rhoddir rhybudd am adolygiad ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod yr Uwch Staff cywir ar gael. Dylid rhoi mynediad i'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch, y Pennaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol neu'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch i'r ffolder Iechyd a diogelwch, asesiadau risg, asesiadau risg gweithle unigol, cofnodion hyfforddiant, sesiynau cynefino lleol, archwiliadau Iechyd a diogelwch, archwiliadau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn. Caiff y Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Corfforaethol fynediad i bob maes gwasanaeth a chaiff drafod materion diogelwch gyda'r holl aelodau o staff a phartneriaid yn ôl yr angen. Dylai'r Adran roi gwybod ymlaen llaw i'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch am unrhyw beryglon penodol yn y gweithle. Mae'n ofynnol iddynt gael eu hebrwng yn briodol neu eu cyfarwyddo i wisgo Cyfarpar Diogelu Personol priodol. Cyflwynir adroddiad i'r Rheolwr cyfrifol o fewn pythefnos yn dilyn yr ymweliad â'r safle, a fydd yn cynnwys:

- sgorio sy'n adlewyrchu lefel y risg
- disgrifiad o'r dystiolaeth, ac
- argymhellion am gamau gweithredu ar gyfer y risgiau a nodwyd.

Dylai'r Adran gadw copi o'r Adolygiad a'r Cynllun Gweithredu yn y Ffolder Iechyd a Diogelwch am 3 blynedd. Bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch yn cadw copi o'r Adolygiad yn electronig ac yn coladu sgorau ar daenlen i'w dadansoddi a'u monitro.

5.3.5 Hunan Asesu Iechyd a Diogelwch

Mae'n rhaid i bob Adran gynnal Hunanasesiad Iechyd a Diogelwch ddwywaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth nodi Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch dynodedig ar gyfer ei faes cyfrifoldeb. Mae'r Rheolwr yn gyfrifol am roi digon o amser ac adnoddau i'r Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch i gynnal yr adolygiad hunan asesu. Rhaid anfon copi o'r adolygiad at y Tîm Iechyd a Diogelwch. Bydd data a goladwyd yn cael ei adrodd yn ôl bob chwe mis i'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Disgwylir i Hyrwyddwyr Iechyd a Diogelwch osod amserlen ar gyfer hunan asesu o fewn eu cylch gwaith. Bydd hyn yn gofyn am gadarnhau pwy sy'n bennaf gyfrifol am Iechyd a Diogelwch gyda'u rheolwr, a sicrhau y cedwir at hyn. Bydd Rheolwr yr Adran yn dychwelyd yr hunanasesiad o fewn yr amserlen yn unol â dyddiadau penodol a osodwyd gan yr Adran Iechyd a Diogelwch.

5.4 Gweithredu – Adrodd am Ddamweiniau / Digwyddiadau

Mae'n rhaid rhoi gwybod i reolwr llinell ar unwaith am unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd. Dylid eu cofnodi ar System Adrodd Datix, gan weithredu arnynt lle bo angen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Reolwyr ei Adrannau ymchwilio i bob damwain ac anaf yn ogystal â rhoi mesurau rheoli ar waith i leihau'r risg o ragor o ddamweiniau neu anafiadau. Mae'n bosibl y bydd angen ymchwilio neu graffu ychwanegol ar rai digwyddiadau, a lle y bernir bod angen hynny, mae'n bosibl y gall y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch ar gyfer y maes hwnnw roi cymorth ac arweiniad i reolwyr. O dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), mae'n ofynnol adrodd am anafiadau yn sgil rhai damweiniau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Mae gan Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan ei reolwr llinell, gyfrifoldeb am adrodd am ddigwyddiadau a nodir yn y Rheoliadau RIDDOR yn uniongyrchol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd yn ofynnol i reolwyr adran ymchwilio i faterion RIDDOR ac adrodd ar bob damwain sy'n achosi anaf neu afiechyd, ac unrhyw ddigwyddiadau yn eu hadrannau a allai fod yn beryglus. Dylid cyflwyno eu hadroddiad i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ddim hwyrach na'r pedwerydd diwrnod o ddyddiad y ddamwain/digwyddiad. Dylid cael datganiadau gan dystion ar adeg y digwyddiad a dylid eu cyflwyno o fewn 4 diwrnod gwaith.

Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i'r ddamwain mewn modd addas a digonol gan ddefnyddio'r system Dadansoddi Gwraidd y Broblem sefydledig. Rhaid i Gyfarwyddwyr y meysydd gwasanaeth sicrhau bod dadansoddiad gwraidd y broblem addas yn cael ei gynnal ar gyfer pob damwain gan gynnwys RIDDOR. Maent hefyd yn gyfrifol am adrodd ar unwaith am ddigwyddiadau sy'n deillio o ddiffygion difrifol mewn cynhyrchion meddyginiaethol a chyflenwadau ac offer meddygol eraill yn unol â'r safonau cydnabyddedig.

5.4.1 Hysbysu am Beryglon

Mae Rhybuddion Hysbysu am Beryglon GIG Cymru yn nodi peryglon a pheryglon posibl sy'n deillio o ddamweiniau sy'n ymwneud â chynhyrchion meddyginiaethol ac offer, cyfarpar a chyflenwadau eraill, boed yn feddygol neu'n anfeddygol. Mae'r Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau'n gyfrifol am gynnal a gweithredu trefniadau i sicrhau bod cynnwys rhybuddion o'r fath yn cael eu dwyn i sylw'r holl swyddogion a'r adrannau y mae angen iddynt wybod eu cynnwys ac am sicrhau y cymerir camau priodol.

5.4.2 Adnabod Peryglon Mewnol

Mae angen system adrodd am beryglon mewnol i bob maes gwasanaeth er mwyn sicrhau y gellir dysgu gwersi ledled BIPBC. Yn ogystal â'r system adrodd, bydd Uwch Adrannau'n cymryd camau priodol i gefnogi'r broses hysbysu am Beryglon. Gall hyn gynnwys materion yn ymwneud â chleifion treisgar, COSHH, tân neu wersi a ddysgwyd o ymchwiliadau penodol Dadansoddi Gwraidd y Broblem

5.4.3 Asesiadau Risg

Mae angen asesiadau risg adrannol mewn ffeiliau iechyd a diogelwch lleol i ddisgrifio pa weithgareddau gwaith a wneir yn y meysydd gwasanaeth. Mae'r broses asesu risg yn nodi'r peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch penodol a'r mesurau rheoli sydd eu hangen i leihau'r risg i'w lefel dderbyniol isaf. Fel arfer ni fydd materion risg isel yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu oni bai bod yr adran yn methu a'u datrys. Bryd hynny, byddant yn cael eu huwchgyfeirio yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg a strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Mae angen adolygu'r asesiadau risg, o leiaf, yn flynyddol neu'n amlach os oes newid sylweddol. Mae gofyn adolygu asesiadau risg yn erbyn darnau eraill o ddeddfwriaeth gan gynnwys rhestr COSHH neu daflenni data.

5.4.4 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei gyfrifoldebau am Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac fel corff corfforedig a chyflogwr, mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 er budd ei staff ac eraill sy'n cael eu heffeithio gan ei weithrediadau. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb penodol o dan y Ddeddf i baratoi Datganiad Polisi cyffredinol a bydd yr holl staff yn gydymffurfio â'r polisi hwn. Mae'r cyfrifoldebau am reoli Iechyd a Diogelwch wedi eu nodi'n glir yn y Polisi hwn a'r gweithdrefnau gweithredol ategol.

6. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

6.1 Cyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd

Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol atebol am weithgareddau'r sefydliad. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau eu bod yn cael sicrwydd priodol o ran gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a'r ddeddfwriaeth ategol.

6.2 Y Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd, sydd â'r prif gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y Polisi hwn yn cael ei ffurfio, ei adolygu a'i weithredu. Yn benodol, cyfrifoldebau'r swydd hon yw:

- Sicrhau bod trefniadau Rheoli digonol yn bodoli er mwyn i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio a gofynion y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a chynnal a gweithredu Polisi Iechyd a Diogelwch BIPBC.
- Sicrhau bod cyfathrebu a chydlynu effeithiol ar faterion Iechyd a diogelwch yn ei holl gyfleusterau gweithredol.
- Sicrhau bod pob uwch reolwr a nodir yn y polisi hwn yn deall eu cyfrifoldebau Iechyd a diogelwch penodol a monitro eu perfformiad.
- Sicrhau y penodir Cyfarwyddwr ym mhob Uwch Adran i gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am faterion Iechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Lles yn eu Huwch Adran eu hunain.

6.3 Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol - Cyfarwyddwr Gweithredol ar Lefel y Bwrdd

Mae'r Prif Weithredwr wedi penodi Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn Gyfarwyddwr ar Lefel y Bwrdd ar gyfer Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, i arwain ar faterion Iechyd a diogelwch ar lefel y bwrdd. Bydd y Cyfarwyddwr ar Lefel y Bwrdd yn gyfrifol drwy broses enwebu, am ddatblygu, monitro a gweithredu'r system rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol. Bydd y Cyfarwyddwr ar Lefel y Bwrdd hefyd yn:

- Sicrhau bod digon o bersonau cymwys yn cael eu cyflogi i roi cyngor ac arweiniad i BIPBC mewn perthynas â rheoli Iechyd a Diogelwch.
- Sicrhau y cydlynir holl weithgareddau Iechyd a Diogelwch BIPBC.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Iechyd yn manylu ar berfformiad Iechyd a Diogelwch.

- Sicrhau bod trefniadau rheoli digonol yn bodoli yn Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch, ac i gynnal a gweithredu'r polisi hwn.
- Sicrhau bod adnoddau addas a digonol ar gael ar gyfer darparu Gwasanaeth lechyd, Diogelwch a Lles Galwedigaethol effeithiol o fewn BIPBC.
- Cadeirio Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch Galwedigaethol i sicrhau bod trefniadau gwybodaeth a llywodraethu'r Gwasanaeth lechyd Galwedigaethol yn eu lle gan uwchgyfeirio materion a nodwyd yn ôl yr angen.

6.4 Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Bydd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn sicrhau bod risgiau lechyd a diogelwch staff ac eraill o amgylcheddau'r gweithle mewn adeiladau newydd a/neu adeiladau wedi'u hadnewyddu sy'n eiddo i'r Bwrdd lechyd, yn cael eu dileu a/neu eu lleihau. Bydd yn sicrhau bod lechyd a Diogelwch yn cael ei ymgorffori yn ystod cam dylunio unrhyw adeilad newydd, a bod cyfathrebu lechyd a Diogelwch ar lefel weithredol yn rhan annatod o'r broses. Dylent sicrhau nad yw risgiau lechyd a Diogelwch Galwedigaethol sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau ariannol yn effeithio ar gydymffurfio â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch.

6.5 Gweithredwyr ac Uwch Reolwyr/Cyfarwyddwyr

Mae ganddynt atebolrwydd proffesiynol, yn ogystal â dyletswyddau penodol eraill:

- Sicrhau bod strwythurau a chyfrifoldebau rheoli yn cael eu nodi a'u gweithredu er mwyn rheoli lechyd a Diogelwch yn effeithiol yn eu meysydd cyfrifoldeb.
- Hwyluso cyfathrebu effeithiol a gweithio mewn partneriaeth â staff mewn perthynas â rheoli lechyd a Diogelwch.
- Rhoi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr lechyd a Diogelwch ar Lefel y Bwrdd (Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol) bod trefniadau rheoli effeithiol ar waith ac yn gweithredu ar draws eu meysydd cyfrifoldeb.
- Uwchgyfeirio unrhyw faterion arwyddocaol a nodir na ellir ymdrin â nhw yn lleol.
- Cefnogi Arweinwyr lechyd a Diogelwch (Hyrwyddwyr) o fewn y maes gwasanaeth y maent yn gyfrifol amdano.
- Gofyn am gyngor ac arweiniad priodol gan bersonau cymwys lechyd a Diogelwch Galwedigaethol (y Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol) a gweithredu canfyddiadau dadansoddi'r bylchau, archwiliadau a digwyddiadau, damweiniau neu dueddiadau a nodwyd.

6.6 Cyfarwyddwr Cyfleusterau / Ystadau

Y Cyfarwyddwr Cyfleusterau/Ystadau sy'n gyfrifol am drefnu archwilio holl adeiladu'r Bwrdd lechyd yn unol â gofynion statudol a rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau adeiladu a pheirianeg, p'run ai bod yr adeiladau wedi eu prynu, eu prydlesu neu'n cael eu meddiannu. Rhaid iddynt sicrhau bod offer a chyfarpar peirianeg ynghyd â'r holl offer a chyfarpar tân, larymau tân a systemau cyfathrebu cysylltiedig yn gweithio'n ddiogel, a monitro a chynnal safonau diogelwch trydanol a

mecanyddol yn unol â safonau cenedlaethol derbyniol, Codau Ymarfer priodol a deddfwriaeth. Rhaid iddynt sicrhau bod dyluniad, manylebau adeiladu a chynnal a chadw adeiladau newydd a phresennol a/neu eiddo ar brydles o fewn y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, deddfwriaeth gyfredol ar Ddiogelwch Tân a safonau Cod Tân yr Adran Iechyd lle bo hynny'n berthnasol, gan sicrhau y cydymffurfir â'r Cedwir y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli).

Argymhellir bod y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau yn ymgynghori â'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wrth gyfathrebu ag Arolygiaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Swyddogion Llywodraeth Leol o ran pennu a monitro'r safonau diogelwch y cyfeirir atynt yn y paragraff uchod ac yn arbennig pan fo angen ystyried Cyfraith Trwyddedu a Chynllunio ac is-ddeddfau lleol a Rheoliadau Adeiladu. Dylent sicrhau bod unigolion cymwys ar gael i gynnal archwiliadau statudol mewn perthynas â gosodiadau nwy, trydanol, systemau dŵr, rheoli asbestos ac ati ac uwchgyfeirio risgiau mewn perthynas â phob agwedd o'r Ystâd. Bydd angen sicrhau bod y gyllideb a ddyrennir ar gyfer agweddau iechyd a diogelwch yr Ystâd gan gynnwys peirianeg strwythurol/peiriannau ac offer trydanol yn cael ei chynnal yn briodol drwy gydol oes y prosiect.

6.7 Cyfarwyddwr pob Uwch Adran

Mae Cyfarwyddwr pob Uwch Adran yn atebol i'r Prif Weithredwr, drwy'r Cyfarwyddwr Gweithredol cyfrifol, i sicrhau bod pob cam rhesymol ymarferol yn ei le i gynnal y trefniadau rheoli angenrheidiol o fewn eu Huwch Adrannau a fydd yn caniatáu i'r polisi hwn gael ei weithredu'n effeithiol. Byddant yn gwneud hyn drwy sefydlu trefniadau lleol i oruchwylio Iechyd a Diogelwch trwy strwythur grŵp lleol sydd â chynlluniau gweithredu clir a systemau ar gyfer monitro perfformiad Iechyd a Diogelwch. Byddant yn caniatáu i staff gael amser i fynychu Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch hanfodol ac yn enwebu Arweinwyr Iechyd a Diogelwch (Hyrwyddwyr) a fydd angen hyfforddiant ychwanegol i sicrhau y gallant gefnogi'r Uwch Adrannau i roi'r Polisi hwn ar waith yn ddiogel. Maent hefyd yn gyfrifol am benodi uwch reolwr i fod yn bennaf gyfrifol am faterion Iechyd, Diogelwch a Lles Galwedigaethol pob maes cyfrifoldeb.

6.8 Cyfarwyddwyr Cynorthwyol / Penaethiaid Gwasanaethau / Cyfarwyddwyr Cyswllt / Timau Rheoli Ysbyty / Timau Rheoli Gwasanaethau

Maent yn atebol i'w Harweinyddion ac yn gyfrifol am weithredu a chynnal trefniadau rheoli angenrheidiol a fydd yn caniatáu rhoi'r polisi hwn ar waith yn yr Uwch Adrannau, Gwasanaethau ac Adrannau y maent yn gyfrifol amdanynt. Dim ond trwy ddatblygu a chynnal polisiâu Iechyd a diogelwch penodol sy'n nodi trefniadau lleol ar gyfer bod yn sail i'r polisi hwn, y gellir cyflymu'r cyfrifoldeb hwn. Rhagwelir y bydd y trefniadau lleol hyn yn cynnwys mecanwaith ar gyfer monitro, adolygu ac archwilio. Gall y staff a enwir uchod ddewis dirprwyo rhai neu bob un o'r dyletswyddau hyn i uwch reolwyr, ac Arweinwyr Iechyd a Diogelwch (Hyrwyddwyr). Fodd bynnag nid yw'n bosibl iddynt ddirprwyo eu cyfrifoldebau. Yn benodol, maent yn gyfrifol am y canlynol:

- Cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n asesu cydymffurfiaeth Iechyd a diogelwch o fewn eu maes gwasanaeth.

- Creu fforwm rheolaidd wedi'i ddogfennu ar gyfer trafod materion iechyd a diogelwch gyda staff a rheolwyr o fewn y Gwasanaeth.
- Cynnwys targedau/amcanion iechyd a diogelwch wrth arfarnu rheolwyr.
- Sicrhau bod cyfrifoldebau iechyd a diogelwch wedi'u nodi'n glir mewn disgrifiadau swydd ar gyfer rheolwyr a phob aelod o staff.
- Sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig yn ei lle sy'n rhoi manylion am drefniadau sesiynau cynefino iechyd a diogelwch, arolygiadau, archwiliadau, monitro ac ati, ac sy'n nodi amserlenni ar gyfer amllder monitro ac arolygu, yn nodi pwy sy'n gwneud y gwaith hwn ac at bwy y dylid anfon adroddiadau. (Dylai hyn arwain at adborth a chatau dilynol).
- Sicrhau bod system gadarn yn bodoli ar gyfer cynnal asesiadau risg.
- Sicrhau bod safleoedd iechyd a diogelwch yn cael eu harolygu'n rheolaidd o fewn eu cyfarwyddiaeth, y cedwir cofnod o ganfyddiadau a bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau.
- Sicrhau bod adroddiadau gan y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn cael eu hanfon at Grwpiau neu Bwyllgorau lleol ac yn dylanwadu ar ganlyniadau pwyllgorau o'r fath.
- Sicrhau y cymerir camau gweithredu mewn perthynas ag adroddiadau iechyd a diogelwch, adroddiadau Perygl Mewnol neu femoranda Peryglon Adran Iechyd Cymru a chanllawiau tebyg.
- Sicrhau bod y Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch cydnabyddedig yn cael cyfleusterau priodol a chydweithrediad fel y gallant gyflawni eu swyddogaethau cyfreithiol yn briodol.
- Sicrhau bod uwch reolwr yn cael ei benodi i gydlynu a goruchwylio'r holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gweithle.
- Sicrhau, trwy'r Tîm Arwain a Phenaethiaid Adrannau penodol lle bo'n briodol, bod yr holl staff newydd yn eu maes gwasanaeth yn:
 - cael cyfarwyddiadau a hyfforddiant digonol i gyflawni eu dyletswyddau yn ddiogel.
 - cael y cyfarpar a'r dillad diogelwch cywir fel y bo'n briodol.
 - ymwybodol o reolau diogelwch a chodau ymarfer perthnasol ac yn cydymffurfio â nhw.
 - deall a chydymffurfio â threfniadau diogelwch tân.
- Datblygu a chynnal y rheolau a'r polisiau iechyd a diogelwch sy'n rhan o'r Datganiad o Fwriad cyffredinol a gefnogir gan y Bwrdd Iechyd a'r Prif Weithredwr.
- Gweinyddu a gweithredu archwiliadau diogelwch, arolygiadau ac asesiadau (gan gynnwys gofynion statudol).
- Sicrhau bod adroddiadau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â'u gwasanaeth yn cael sylw prydlon ac y cymerir y camau gweithredu priodol.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant gorfodol yn unol â'r polisi cyfredol.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfarwyddyd iechyd a diogelwch priodol.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn bodoli ar gyfer adrodd am ddamweiniau/digwyddiadau a bod camau gweithredu priodol yn deillio o ymchwiliadau dadansoddi gwraidd y broblem yn cael eu rhoi ar waith i'w hatal rhag digwydd eto.
- Sicrhau bod trefniadau cadarn yn bodoli ar gyfer nodi peryglon yn eu hadran ac y cynhelir asesiadau risg i nodi a rheoli'r rigiau sy'n gysylltiedig â'r peryglon.

- Sicrhau bod ganddynt lefel briodol o wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

6.9 Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb

Mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb yn un o bersonau cymwys allweddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n rhoi arweiniad ar y Polisi Iechyd a Diogelwch ac yn gweithredu'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol tair blynedd. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd Iechyd, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ac Uwch Staff eraill fel y bo'n briodol am oblygiadau'r rheoliadau statudol amrywiol sy'n berthnasol i'w maes rheolaeth ac ef yw'r cyswllt ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r asiantaethau gorfodi perthnasol eraill.

Mae'r rôl hon yn sicrhau y gellir dangos tystiolaeth o systemau diogelwch addas, a bod cynnydd yn erbyn y Strategaeth yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system reoli ym mhob maes gwasanaeth. Gwneir hyn trwy ddarparu rhaglen waith sy'n gwella diwylliant Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd yn barhaus.

6.10 Pennaeth Iechyd a Diogelwch

Mae'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch yn cynghori'r Cyfarwyddwyr/Rheolwyr a'r staff fel y bo'n briodol am oblygiadau'r amrywiol reoliadau statudol sy'n berthnasol i'w maes rheolaeth. Mae'r cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- Rhoi ffocws ar faterion iechyd a diogelwch a chydlynu polisi, gan gynnwys ei ffurfio a'i adolygu.
- Datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol y gellir eu hadrodd i'r Bwrdd Iechyd.
- Cydgysylltu â'r Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill i sicrhau bod adroddiadau'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â'u meysydd yn cael eu cyfathrebu'n gywir, bod yr ymateb gan reolwyr yn cael ei lunio'n ddigonol ac y cymerir y camau priodol.
- Cydgysylltu â rheolwyr mewn Uwch Adrannau i sicrhau bod adroddiadau o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael sylw prydlon a bod yr Adrannau perthnasol yn cymryd y camau priodol.
- Cydgysylltu â'r Arweinwyr ar ymchwiliadau Dadansoddi Gwraidd y Broblem lle bo'n briodol.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ac ymchwilio i ddamweiniau/digwyddiadau ar gael drwy'r Uwch Adrannau.
- Adrodd am ddigwyddiadau a nodir yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Cydgysylltu â'r Tîm Rheoli Risg gan gynnwys Arweinwyr Risg Iechyd a Diogelwch mewn materion sy'n ymwneud ag uwchgyfeirio risgiau drwy'r system Lywodraethu.
- Cynhyrchu rhaglen Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod y lefel a'r cwmipas yn ddigonol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau y cynhelir archwiliad iechyd a diogelwch blynyddol sy'n cynnwys holl adrannau'r Bwrdd Iechyd.

6.11 Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch

Mae'r Cynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn atebol i'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch gyda chyfrifoldebau penodol sy'n cynnwys:

- Cefnogi datblygu polisïau, gweithdrefnau a nodiadau canllaw i gynorthwyo'r rheolwyr i gydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n berthnasol i BIPBC.
- Cynorthwyo'r Uwch Adrannau i ymchwilio'n drylwyr i bob digwyddiad sy'n ymwneud â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a chynorthwyo datblygu'r gwersi a ddysgwyd. Cefnogi argymhellion i leihau'r risg o ddigwyddiadau tebyg gan y rhai sy'n uniongyrchol gyfrifol rhag digwydd eto.
- Monitro cydymffurfiaeth uwch adrannau yn dilyn argymhellion a wnaed ar ôl ymchwiliad, er mwyn sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn eu lle a'u bod yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.
- Nodi tueddiadau drwy fonitro a dadansoddi data a gwneud argymhellion ar y canfyddiadau.
- Monitro a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn helpu gwella perfformiad iechyd a diogelwch, a darparu adroddiadau i grwpiau perthnasol.
- Cyfathrebu'n effeithiol a gweithio mewn partneriaeth.
- Cefnogi datblygu prosesau proffil risg iechyd a diogelwch lleol/BIPBC.
- Cefnogi datblygu trefniadau addas a digonol ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch a fydd yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â Deddfwriaeth Statudol.
- Darparu cyrsiau iechyd a diogelwch wedi'u seilio ar ddadansoddi anghenion hyfforddi.
- Cynnal archwiliadau ac arolygiadau o safleoedd.
- Cysylltu â sefydliadau partner megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Rhoi cefnogaeth i'r timau dylunio a phrosiect mewn perthynas â gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer cyfleusterau newydd a'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes.

6.12 Rheolwr/Tîm Codi a Chario

Mae'r Rheolwr Codi a Chario a'r Tîm yn gyfrifol am ddatblygu a darparu hyfforddiant codi a chario i holl staff y Bwrdd Iechyd. Mae'r cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- Sicrhau bod anghenion hyfforddiant y staff yn cael eu bodloni drwy asesiadau cymhwysedd neu asesiadau mewn dosbarth.
- Cynorthwyo meysydd clinigol i ddarparu gofal cleifion mwy diogel ac annog cleifion i symud drwy roi cymorth codi a chario cadarnhaol.
- Darparu hyfforddiant nad yw'n glinigol a chefnogi gweithwyr segur i ddal ati i symud er mwyn lleihau afiechyd yn y gweithle.
- Darparu asesiadau risg ergonomig a chyngor arbenigol.
- Cynnal archwiliadau ac arolygiadau penodol a chefnogi datblygu asesiadau risg priodol ym mhob maes gwasanaeth.
- Datblygu Hyrwyddwyr Codi a Chario mewn meysydd Gwasanaeth i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag anhwylderau cyhyrsgerbydol.
- Cynorthwyo'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau darpariaeth hyfforddiant i staff BIPBC (ac eithrio'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau

Dysgu) ar drais ac ymddygiad ymosodol gan gynnwys dad-ddwysáu, diogelwch personol a thechnegau torri i ffwrdd.

- Bydd Cyswllt Dementia a Thrais ac Ymddygiad Ymosodol o fewn y Tîm yn cefnogi staff gyda chynllun cymorth ymddygiad sy'n canolbwyntio ar y claf, ac yn darparu'r cymorth sydd ei angen i staff sy'n delio â chleifion neu sefyllfaoedd cymhleth.

6.13 Rheolwyr/Arweinwyr Ardal Iechyd a Diogelwch, Risg Ardal, Rheolaeth Glinigol

Er ei bod yn bosibl bod gan bob Uwch Adran Ardal (Gorllewin, Canol a Dwyrain) ei chymorth iechyd a diogelwch â strwythurau adrodd eu hunain a rolau gwahanol, y bwriad yw iddynt gefnogi rheolaeth iechyd a diogelwch effeithiol o fewn eu Hardal ddynodedig. Maent yn adolygu protocolau iechyd a diogelwch a pholisïau rheoli risg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch corfforaethol. Ar ôl ymgynghori, cânt gynorthwyo'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ddarparu hyfforddiant ar bynciau iechyd, diogelwch a rheoli risg i staff ar bob lefel yn yr Ardal yn unol â'r cynlluniau gwella corfforaethol a'r blaenoriaethau hyfforddi a ddiffinnir mewn dadansoddiad anghenion hyfforddiant a wneir gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Byddant yn sicrhau bod pob safle/lleoliad yn yr Ardal yn cydymffurfio'n llawn â pholisïau a nodwyd yn y gwaith dadansoddi bylchau ac mewn deddfwriaeth, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill. Byddant hefyd yn cynnal archwiliadau mewnol ac arolygiadau a chynorthwyo rheolwyr ag asesiadau risg penodol a chyffredinol.

Byddant yn sicrhau bod adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu rhannu â'r timau perthnasol, bod y Tîm Iechyd a Diogelwch yn cael gwybod am RIDDOR er mwyn eu hadrodd, yn cynnal dadansoddiadau o wraidd y broblem a nodi camau gweithredu i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael sylw. Byddant yn adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am unrhyw gyswllt â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu asiantaeth orfodi arall cyn cynnal unrhyw gyfarfodydd er mwyn sicrhau cysondeb. Byddant yn rheoli'r Hysbysiadau Rhybudd Peryglon gan sicrhau bod modd olrhain camau gweithredu a'u hadrodd yn brydlon i Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac yn ymateb i faterion a uwchgyfeirwyd gan arweinwyr iechyd a diogelwch lleol (hyrwyddwyr) a'u huwchgyfeirio drwy'r strwythur llywodraethu os nad ydynt eisoes wedi'u gweithredu.

6.14 Pennaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol

Mae Pennaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol yn gyfrifol am ddarparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ar gyfer BIPBC. Yn benodol, bydd yn darparu cyngor i'r rheolwyr am agweddau iechyd galwedigaethol ar yr amgylchedd gwaith a threfnu rhaglenni sgrinio staff yn ôl yr angen. Dyma enghreifftiau o'r math o weithgarwch sydd ei angen:

- Gwasanaeth asesu iechyd cyn cyflogi ar gyfer holl ddarpar weithwyr BIPBC, fel y bo'n briodol ac ar lefel sy'n berthnasol i waith arfaethedig yr ymgeisydd.
- Cadw golwg ar iechyd y galwedigaethau perthnasol lle bo clefyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn cael ei gydnabod e.e. sŵn, dirgryniad llaw a braich, sensitifrwyd croen/anadlu.

- Asesiadau iechyd ar gyfer gweithwyr nos yn unol â'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (EWTD).
- Rhaglenni imiwneiddio i weithwyr.
- Cynghori ar/rheoli clefydau a salwch eraill sy'n cael eu priodoli i beryglon galwedigaethol neu y gellir eu priodoli i'r fath beryglon e.e. offer miniog / digwyddiadau halogi hylif y corff / clefydau trosglwyddadwy sy'n gysylltiedig â heintiau.
- Mentrau iechyd a llesiant
- Llinell gymorth i gynorthwyo gweithwyr i gael cyngor cynnar ar waith neu faterion personol / cyfeirio at gymorth cyhyrsgerbydol / cymorth emosiynol.
- Cyngor a chefnogaeth i staff sy'n dioddef afiechyd o ganlyniad i'w galwedigaeth. Gall afiechyd o'r fath gynnwys gweithio gyda sylweddau peryglus neu gyfryngau heintus.

6.15 Atal heintiau

Mae gan y Tîm Atal Heintiau Corfforaethol staff wedi'u lleoli ym mhob un o'r tri safle acíwt i ddarparu gwasanaeth ledled BIPBC gyfan. Cefnogir hyn gan wasanaeth microbioleg glinigol a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r tîm yn cynnig cyngor, cymorth ac arweiniad ar holl faterion atal a rheoli heintiau, hyfforddi staff, cymorth ar gyfer asesu risg, a pholisïau a gweithdrefnau i ddiogelu staff, cleifion a'r cyhoedd rhag risgiau sy'n gysylltiedig â heintiau. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, rheolwyr cyfarwyddiaeth a staff clinigol i gefnogi arferion diogel.

6.16 Pennaeth Rheoli Risg

Mae'r Pennaeth Rheoli Risg yn gyfrifol am ddatblygu systemau Llywodraethu Da, sef system fenter gyfan sy'n canolbwyntio ar fod yn ddeinamig, yn rhagweithiol ac yn integredig er mwyn meithrin cyflawni amcanion a meysydd blaenoriaeth. Mae rheoli risg yn fodd i ysgogi gwelliannau parhaus mewn gofal, diogelwch a phrofiad cleifion wrth wella ansawdd penderfyniadau. Mae'r tîm rheoli risg yn cynorthwyo Cyfarwyddiaethau/Uwch Adrannau a Gwasanaethau Corfforaethol i adolygu a diweddarau eu proffiliau risg yn rheolaidd. Y bwriad yw cryfhau prosesau a systemau rheoli risg gan sicrhau bod digon o eglurder ar y trefniadau llywodraethu. Mae Rheoli Risg yn fusnes i bawb ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae ymgysylltiad staff yn enwedig gan Uwch Reolwyr/Cyfarwyddwyr, a meithrin capasiti mewn rheoli risg yn allweddol ar gyfer gwreiddio diwylliant rheoli risg cadarnhaol ar draws y Bwrdd Iechyd.

6.17 Cyfarwyddwr/Rheolwr Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Bydd gan y gwasanaeth carchardai ddull integredig o weithio o ran iechyd a diogelwch galwedigaethol gyda Pholisïau a gweithdrefnau cyfun, a risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol. Mae angen diffinio'r broses asesu risg yn glir gan nodi llinellau atebolrwydd clir pan fo achosion penodol yn cael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth carchardai i'r Adain Iechyd. Bydd angen amlygu'r rhai sy'n peri risgiau sylweddol i'r Arweinwyr Gwasanaeth gan nodi'r rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae angen i lefel hyfforddiant y rhai sy'n gweithio yn y Carchar fod ar lefel sy'n gymesur â'r risgiau a nodwyd gan Bennaeth Gofal Iechyd CEF Berwyn.

6.18 Rheolwyr Adran

Mae Rheolwyr Adran yn uniongyrchol gyfrifol am sicrhau bod rheolau a gweithdrefnau mewn perthynas â'u staff yn cael eu dehongli'n gywir ac yn cael eu gweithredu'n eu cyfanrwydd. Gall Rheolwyr Adran ddewis dirprwyo rhai neu bob un o'r dyletswyddau hyn i is-staff, ond nid yw'n bosibl iddynt ddirprwyo eu cyfrifoldebau. Eu cyfrifoldebau penodol yw:

- Cynnal asesiadau risg safle-benodol, mewn perthynas â pheryglon iechyd corfforol a meddyliol.
- Nodi peryglon galwedigaethol posibl sy'n gysylltiedig â'u gweithrediadau a'r rhagofalon i'w cymryd.
- Sicrhau bod risgiau sylweddol neu risgiau sy'n cael eu nodi ond nad yw'n bosibl eu datrys yn lleol yn cael eu huwchgyfeirio i'r Grŵp neu Bwyllgor Iechyd a Diogelwch priodol neu gyfatebol a'u rheoli yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Strategaeth Rheoli Risg.
- Cynhyrchu canllawiau adrannol priodol, ac asesiadau (gan gynnwys gofynion statudol) sy'n ymwneud â'r maes gwasanaeth.
- Sicrhau bod yr holl reolau, gweithdrefnau a Chodau Ymarfer perthnasol yn cael eu dwyn i sylw'r staff sydd o dan eu rheolaeth, a'u bod ar gael iddynt, a bod rhybuddion priodol a phob cyfarwyddyd priodol yn cael eu harddangos yn amlwg.
- Sicrhau bod sesiynau cynefino digonol ar gyfer yr holl staff newydd sy'n rhoi pwyslais ar agweddau iechyd, lles a diogelwch eu dyletswyddau.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael offer iechyd a diogelwch, dillad diogelwch, ac ati, gan sicrhau ei fod bob amser ar gael, yn cael ei gynnal a'i gadw'n gywir ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sicrhau bod yr holl Oruchwylwyr yn deall cyfarwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd a Diogelwch a'u bod yn monitro cydymffurfiaeth staff.
- Ymchwilio i bob damwain/digwyddiad peryglus yn eu maes rheoli, sicrhau bod unrhyw gamau i'w hadfer yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl, a'u bod yn rhoi gwybod i'w Uwch Reolwr fel y bo'n briodol. Dylid cofnodi unrhyw gamau adfer ar y ffurflen briodol yn y system Datix. Dylid cofnodi ymchwiliadau adrannol yn ysgrifenedig a chyflwyno copi ynghyd â'r ffurflen damwain/digwyddiad i Gynghorydd Iechyd a Diogelwch yr Uwch Adran os yw'n gofyn.
- Sicrhau bod pob damwain/digwyddiad peryglus yn cael eu cofnodi ar y ffurflen briodol ar gyfer damweiniau/digwyddiad a hynny heb fod yn hwyrach na'r pedwerydd diwrnod o ddyddiad y ddamwain/digwyddiad. Dylid rhoi gwybod am anafiadau mawr cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadrodd yn brydlon i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Sicrhau bod Datganiadau gan Dystion ar gael (ac wedi'u cofnodi'n ysgrifenedig) a'u cynnwys gyda'r ffurflen ddamweiniau/digwyddiad pan gaiff y ddamwain/digwyddiad eu cofnodi ar y system Datix, neu cyn gynted â phosibl os cant eu derbyn yn ddiweddarach.
- Sicrhau bod damweiniau/digwyddiadau peryglus perthnasol sy'n digwydd y tu allan i oriau gwaith arferol yn cael eu rhestru dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Dylid rhoi gwybod i'r Cynghorydd Iechyd a Diogelwch cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan ei bod yn ofynnol iddo adrodd ar unwaith i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

- Sicrhau bod yr offer a ddefnyddir yn yr Adran yn ddiogel ac yn ddigonol at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer.
- Sicrhau bod yr Adran Ystadau (ar gyfer offer anghlinigol)/EBME (ar gyfer offer clinigol) yn cael gwybod am yr holl offer trydanol cludadwy newydd fel y gellir cynnal y profion statudol cyn eu rhoi ar waith, a'u gwirio fel y bo'n briodol wedi hynny.
- Sicrhau bod yr holl offer trydanol cludadwy yn cael ei wirio'n weledol yn rheolaidd gan ddefnyddwyr a bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi ar daflen wirio briodol.
- Sicrhau bod offer, peiriannau neu adeiladau diffygiol yn cael eu hadrodd yn brydlon er mwyn eu hatgyweirio. Cymryd camau digonol i roi'r gorau i ddefnyddio'r uned neu'r ardal berthnasol dros dro os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol gan osod label neu rybudd addas fel y bo'n briodol.
- Sicrhau bod pob cyfeiriad lechyd Galwedigaethol yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol ac os yw straen sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'i nodi, bod asesiad risg straen wedi ei gynnwys hefyd.
- Cysylltu â Chynrychiolwyr Diogelwch yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ac yn benodol:
 - Cydweithredu ag archwiliadau diogelwch a drefnir trwy gytundeb.
 - Cadw cofnod o bob archwiliad diogelwch.
 - Cynnal unrhyw ymchwiliad neu gymryd camau angenrheidiol yn dilyn archwiliad diogelwch.
 - Datgelu unrhyw wybodaeth angenrheidiol y bydd Cynrychiolwyr Diogelwch yn gofyn amdani yn unol â'r ddeddfwriaeth, gan ofyn am gyngor y Rheolwr Personél lle bo angen.
- Cydweithio â Swyddogion Tân a Diogelwch i sicrhau y gwneir yr holl drefniadau angenrheidiol i amddiffyn cleifion, staff ac eraill rhag y risg o dân.
- Cynorthwyo i ymchwilio a gweithredu'r gofynion sydd yn adroddiadau'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu hyfforddiant gorfodol yn unol â'r polisi cyfredol.
- Sicrhau bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddosbarthu, ei fod ar gael yn rhwydd a'i fod yn cael ei ddefnyddio fel y bo'n briodol. Mewn achosion priodol, sicrhau y cwblheir asesiad risg gan ddefnyddio'r ffurflen briodol, y nodir unrhyw risg o'r fath ynghyd â manylion am ba gamau sydd i'w cymryd i leihau neu ddileu'r risg fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith. Bydd methiant staff i ddefnyddio offer diogelu personol priodol yn y sefyllfaoedd perthnasol yn destun gweithdrefnau disgyblu
- Sicrhau bod Cyfarpar Gwaith yn cael ei asesu ar gyfer risg ar y ffurflen asesu berthnasol gan nodi lefel y risg, y math o risg ac unrhyw argymhellion i ddileu neu leihau'r risg i lefel rhesymol ac ymarferol fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith.
- Sicrhau bod y gweithle'n cael ei asesu ar gyfer risg ar y ffurflen asesu berthnasol gan nodi lefel y risg, y math o risg ac unrhyw argymhellion i ddileu neu leihau'r risg i lefel rhesymol ac ymarferol fel sy'n ofynnol yn Rheoliadau'r Gweithle (iechyd, Diogelwch a Lles).
- Gweithredu Hysbysiadau Perygl yn ôl cyfarwyddyd (mewnol ac allanol).
- Sicrhau bod person(au) cymwys yn cynnal yr holl asesiadau risg priodol yn ôl yr angen a bod camau yn cael eu cymryd i leihau'r risgiau a nodwyd. Dylid cofnodi'r asesiadau mewn modd addas.

- Sicrhau bod holl weithwyr yr adran yn cael gwybod am y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gwaith, fel y'u nodir drwy'r broses asesu risg a bod holl weithwyr yr adran yn cael gwybod am unrhyw fesurau ataliol ac amddiffynnol y mae angen iddynt gadw atynt.
- Sicrhau y tynnir sylw holl weithwyr yr adran at holl ddogfennau iechyd a diogelwch priodol y Bwrdd Iechyd o leiaf unwaith y flwyddyn neu ar ôl unrhyw adolygiad neu newid i ddogfennaeth o'r fath. Dylid cofnodi hyn yn addas ar lefel adrannol ar gyfer pob unigolyn.
- Sicrhau bod ganddynt lefel briodol o wybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

Mae pob Rheolwr yn atebol i'r Prif Weithredwr am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n briodol yn eu maes rheoli. Yn benodol, byddant yn:

- Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael eu goruchwylio'n ddigonol ac yn gymesur â'u sgiliau a'u cymhwysedd.
- Sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn ddiogel ac yn gymwys.
- Cadw cofnodion lleol manwl am hyfforddiant pob aelod o staff.
- Defnyddio data o arolygiadau'r Gyfarwyddiaeth, proffil peryglon y Gyfarwyddiaeth, a phwyllgorau ymgynghorol i arwain camau gweithredu i atal neu leihau'r risg o ddigwyddiadau difrifol.
- Cynnal asesiadau risg straen Adrannol ac unigol yn ôl yr angen.

6.19 Cyfarwyddiaeth Iechyd a Diogelwch/Arweinwyr Ardal (Hyrwyddwyr)

Rôl Hyrwyddwr Arweiniol y Gyfarwyddiaeth/Ardal:

- Datblygu systemau i gydlynw/cynorthwyo yn y prosesau rheoli iechyd a diogelwch yn y Cyfarwyddiaethau/Ardaloedd a Swyddogaethau Corfforaethol.
- Cynorthwyo rheolwyr i gwblhau asesiadau risg.
- Cynorthwyo rheolwyr i nodi peryglon posibl a digwyddiadau peryglus a chynnal dadansoddiad o wraidd y broblem.
- Ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â digwyddiadau iechyd a diogelwch.
- Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ac ar lafar i'w tîm rheoli.
- Cynorthwyo gyda threfniadau unrhyw adolygiad/arolygiad/archwiliad iechyd a diogelwch.
- Lledaenu gwybodaeth iechyd a diogelwch.
- Mynychu cyfarfodydd priodol a chodi materion perthnasol.
- Rhoi copiâu o adroddiadau arolygu i'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol lle bo'n briodol.
- Mynychu cyfarfodydd Arweinwyr Ardal Iechyd a Diogelwch (Hyrwyddwyr) a drefnir gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- Uwchgyfeirio unrhyw faterion sylweddol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

6.20 Pennaeth Diogelwch

Mae'r Pennaeth Diogelwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhoi ffocws ar gyfer materion iechyd a diogelwch digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch gan gynnwys ymosodiadau corfforol, a chydlynu polisi, gan gynnwys ei ffurfio a'i adolygu.
- Cydgysylltu â'r Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Ardal, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ac Uwch Reolwyr eraill i sicrhau bod adroddiadau'r Grŵp Diogelwch sy'n ymwneud â'u meysydd yn cael eu cyfathrebu'n gywir a bod yr ymateb gan reolwyr yn cael ei lunio'n ddigonol ac y cymerir y camau priodol.
- Rheoli staff Diogelwch priodol gan gynnwys Rheolwr Achos Trais ac Ymddygiad Ymosodol a staff perthnasol i sicrhau bod y Polisi Diogelwch yn cael ei roi ar waith yn effeithiol.

6.21 Rheolwr Achos Trais ac Ymddygiad Ymosodol

Y Rheolwr Achos Trais ac Ymddygiad Ymosodol sy'n arwain y gwaith o greu amgylchedd diogel a sicr i staff a'r cyhoedd fel y gellir sicrhau bod y safonau uchaf o ofal clinigol ar gael i gleifion. Maent yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhoi cymorth, gwybodaeth a chynghor i staff BIPBC sydd wedi dioddef troseddau sy'n gysylltiedig â'u gwaith gan gynnwys trais/ymddygiad ymosodol, a bwrw ymlaen ag erlyniadau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid o fewn y GIG a sefydliadau allanol megis yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- Rhoi cymorth, gwybodaeth a chynghor i unigolion o BIPBC sydd wedi dioddef trais/ymddygiad ymosodol a digwyddiadau diogelwch sy'n gysylltiedig â'u gwaith.
- Cynorthwyo Pennaeth Diogelwch Iechyd i ddatblygu, gweithredu ac adolygu Strategaeth a Pholisi Diogelwch y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu, adolygu a rheoli'r broses proffil risg diogelwch o fewn y Bwrdd Iechyd gan roi sicrwydd i'r Pennaeth Diogelwch Iechyd bod risgiau diogelwch o fewn y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli yn unol â deddfwriaeth statudol a chanllawiau cenedlaethol.
- Pan fo'n absennol, dirprwyo ar ran y Pennaeth Diogelwch Iechyd mewn materion sy'n gofyn am ymateb brys

6.22 Pennaeth Diogelwch Tân/Cynghorwyr

Mae Cynghorydd Arweiniol y Bwrdd Iechyd, yr Uwch Swyddog Ystadau sy'n gyfrifol am Ddeddfwriaeth a Chydymffurfiaeth, a'r Cynghorwyr Diogelwch Tân yn gyfrifol am ddarparu arbenigedd technegol i sicrhau bod systemau addas ar waith i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â tân. Byddant hefyd yn gyfrifol am gynnal archwiliadau ac arolygiadau i sicrhau bod gweithdrefnau gwacáu wedi'u sefydlu a'u hymarfer a bod strwythur yn adeiladau yn addas i'r diben.

6.23 Gweithwyr

Mae gan bob gweithiwr ddyletswydd gyffredinol yn y gwaith:

- Cymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac unigolion eraill (gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a chleifion) y gellir rhagweld y bydd eu gweithredoedd neu eu hesgeulustod yn y gwaith yn effeithio arnynt.
- Cydweithredu â BIPBC wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati. (1974).

- Peidio ag ymyrryd na chamddefnyddio yn fwriadol nac yn fyrbwyll unrhyw beth a ddarperir at ddibenion lechyd a Diogelwch
- Rhoi gwybod am unrhyw sefyllfa waith sy'n ddifrifol beryglus i'r Rheolwr Llinell neu Oruchwyliwr a fydd yn ei uwchgyfeirio ymhellach os yw'n briodol.
- Rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion yn nhrefniadau lechyd a Diogelwch y gweithle.
- Ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a chyfarwyddyd lechyd a Diogelwch angenrheidiol a ddarperir. Os na lynir at yr wybodaeth a roddir, gall hyn arwain at gymryd camau disgyblu yn unol â'r Polisiâu a'r gweithdrefnau perthnasol.

6.24 Partneriaid Undeb Llafur a Chynrychiolwyr Achrededig Diogelwch

Mae BIPBC yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd ymgysylltu'n rhagweithiol a'i weithwyr a'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â gofynion Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977 a Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996. Wrth wneud hynny, bydd y Bwrdd lechyd yn gweithio mewn partneriaeth â'i weithwyr drwy gynrychiolwyr diogelwch undebau llafur cydnabyddedig a chyrrff proffesiynol eraill, gan ddarparu cyfleusterau a chymorth i'r grwpiau cynrychioliadol hyn yn ôl yr angen. Y ffocws yw hyrwyddo partneriaeth ragweithiol, gan weithio tuag at sicrhau bod amgylchedd iach a diogel yn bodoli ar gyfer y rhai a allai gael eu heffeithio gan ymrwymïadau'r Bwrdd lechyd.

Mae BIPBC yn derbyn nad yw unrhyw bolisi diogelwch yn debygol o fod yn llwyddiannus oni bai ei fod yn cynnwys y gweithwyr eu hunain ac felly, bydd yn cydweithredu'n llawn â phenodiadau Cynrychiolwyr Diogelwch yr Undebau Llafur cydnabyddedig ac yn darparu digon o gyfleusterau a hyfforddiant iddynt gyflawni eu swyddogaethau cyfreithiol. Bydd Cynrychiolwyr Diogelwch yn cael eu hachredu trwy lythyr gan swyddogion llawn amser yr Undeb neu'r Gymdeithas, a chaiff ei gofnodi gan yr Adran Adnoddau Dynol. Bydd yn ofynnol i Gynrychiolwyr Diogelwch achrededig o'r fath gyflwyno eu dogfennau achredu ar gais i gadarnhau eu bod yn cyflawni swyddogaethau Cynrychiolydd Diogelwch. Bydd Cynrychiolwyr Diogelwch, sy'n cynrychioli'r staff yn eu gweithleoedd ynghylch materion lechyd a Diogelwch yn y gwaith, yn ymgynghori ac yn cydweithredu â Rheolwyr BIPBC i hyrwyddo a datblygu mesurau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu cydweithwyr. Yn benodol byddant yn:

- Cyflwyno sylwadau, trwy eu goruchwyliwr uniongyrchol i'r Pennaeth Adran neu Faes Gwasanaeth yn y lle cyntaf, ar unrhyw fater cyffredinol neu benodol sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch gweithwyr yn eu gweithle.
- Cynnal ymchwiliadau ar y cyd â'r Pennaeth Adran neu'r Pennaeth Gwasanaeth, i beryglon posibl a digwyddiadau peryglus yn y gweithle ac archwilio achosion damweiniau.
- Cynnal arolygiadau ar y cyd â Phennaeth yr Adran neu'r Pennaeth Gwasanaeth ar ôl rhoi rhybudd rhesymol neu'n unol â'r rhaglen y cytunwyd arni ac ar yr adegau y cytunwyd arnynt - dim mwy nag unwaith bob tri mis fel arfer. Dylid cofnodi archwiliadau o'r fath yn y ffurf a argymhellir o dan Reoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977, a fydd, o'u cyflwyno i'r Pennaeth Adran, yn cael eu cydlofnodi ganddynt.
- Cynrychioli gweithwyr yn y gweithle mewn ymgynghoriadau â Swyddogion yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch. Argymhellir bod Cynrychiolwyr Diogelwch yn cysylltu â'r Tîm lechyd a Diogelwch Corfforaethol i drafod

materion sy'n ymwneud â deddfwriaeth lechyd a Diogelwch cyn cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch; fodd bynnag nid yw hwn yn ofyniad penodol.

- Ar gais y Bwrdd lechyd, derbyn gwybodaeth yn ymwneud â'r gweithle neu wybodaeth am unrhyw gamau y mae Arolygydd yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

6.25 Cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch nad ydynt o Undebau Llafur

Lle nad oes Cynrychiolwyr undeb wedi'u penodi o dan Reoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977, mae Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Gweithwyr) 1996 yn caniatáu penodi Cynrychiolwyr Diogelwch nad ydynt o undebau llafur, ymgynghoriadau uniongyrchol ar faterion lechyd a diogelwch â'r holl weithwyr. Rôl Cynrychiolydd Undeb Llafur/nad yw o Undeb Llafur yw cynrychioli cyd-aelodau/gweithwyr mewn ymgynghoriadau ar faterion lechyd a diogelwch gyda'r cyflogwr drwy gyflawni'r swyddogaethau'n effeithlon a defnyddio'r cyfleusterau a chymorth a ddarperir gan y cyflogwr. Yn y modd hwn, bydd cydweithio ar faterion yn gwella lechyd, diogelwch a lles cyffredinol y staff a'u gweithle.

Mae swyddogaethau Cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch fel a ganlyn:

- Cynrychioli cyd-aelodau/gweithwyr wrth ymgynghori â'r cyflogwr ar faterion lechyd a diogelwch.
- Ymchwilio i beryglon posibl a digwyddiadau peryglus a chynnal dadansoddiad o wraidd y broblem gyda'r rheolwyr.
- Ymchwilio i gwynion.
- Cyflwyno sylwadau i'r cyflogwr, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Cynnal arolygiadau.
- Derbyn gwybodaeth gan y cyflogwr lle bydd wedi ei enwebu i wneud hynny, mynychu cyfarfodydd y pwyllgorau diogelwch a chodi materion perthnasol.
- Darparu copïau o adroddiadau arolygu i gyflogwyr a derbyn ymatebion mewn perthynas ag adroddiadau arolygu.

Sylwer: Lle bynnag y bo modd, bydd BIPBC yn annog enwebu Cynrychiolydd lechyd a Diogelwch o Undebau Llafur, fodd bynnag, pan na ellir penodi Cynrychiolydd Undeb rhoddir ystyriaeth i Gynrychiolydd nad yw'n dod o Undeb Llafur.

6.26 Contractwyr Gofal Sylfaenol

Mae BIPBC yn cydnabod bod gan Contractwyr Gofal Sylfaenol ddyletswydd foesol a chyfreithiol o dan ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch i reoli risgiau lechyd a Diogelwch o fewn eu busnes ac mae hyn yn cynnwys atal niwed neu afiechyd i'r rhai nad ydynt yn eu cyflogaeth. Yn achos y berthynas gyda BIPBC mae hyn yn ymwneud â chleifion/cleientiaid sy'n derbyn gofal GIG mewn eiddo nad yw o dan reolaeth uniongyrchol BIPBC.

Trwy drefniadau partneriaeth a chytundebol effeithiol, bydd BIPBC yn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag lechyd a diogelwch trwy'r Cynghorydd lechyd a Diogelwch Gofal Sylfaenol. Bydd hyn ar y cyd â'r Timau Llywodraethu Clinigol sydd wedi'u lleoli o fewn yr ardaloedd daearyddol i sicrhau bod

y gymuned GIG ehangach yng Ngogledd Cymru yn elwa o'r ystod lawn o arbenigeddau sydd ar gael.

Bydd lechyd a Diogelwch Corfforaethol BIPBC yn cytuno ac yn hwyluso trefniadau monitro effeithiol, mewn partneriaeth â'r Timau Llywodraethu Clinigol, i gynorthwyo gyda rheoli a lliniaru risgiau yn eu hamgylchedd. Bydd hyn yn galluogi BIPBC a'r Timau Llywodraethu Clinigol i gyflawni gofynion Safonau Gofal lechyd Cymru yn ogystal â'r ddeddfwriaeth statudol i sicrhau arfer da. Ymgwymerir â threfniadau monitro gan ddefnyddio'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd Ymweld (QAVP) ac Adolygiadau lechyd a Diogelwch yn unol â'r gofynion deddfwriaethol hyn a'r trefniadau cytundebol. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu ar sail amserlen gyfnodol yn seiliedig ar risg neu pan fydd contractau'n newid.

6.27 Gwasanaethau a Gomisiynir

Pan fydd gofal a ariennir gan y GIG yn cael ei gomisiynu y tu allan i BIPBC, bydd y sefydliad yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y mannau hynny lle lleolir claf/cleifion yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y claf/cleifion. Mae gan Gartrefi Gofal y Sector Annibynnol eu cyfrifoldebau eu hunain o ran cydymffurfio â Deddfwriaeth Statudol; fodd bynnag mae gan BIPBC gyfrifoldeb statudol am sicrhau bod cleifion a leolir mewn gofal a ariennir gan y GIG yn cael gofal mewn amgylchedd diogel ac addas. Bydd BIPBC yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni trwy werthuso, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau rheoleiddio eraill gan gynnwys Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, yr awdurdod lleol a'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch i sicrhau bod trefniadau monitro effeithiol yn eu lle yn unol â threfniadau cytundebol gyda'r darparwyr gofal.

7. SICRWYDD

7.1 Strwythur Sicrwydd

Bydd y Bwrdd lechyd yn cael sicrwydd o ran rheoli lechyd a Diogelwch y Sefydliad drwy'r Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch Galwedigaethol a'r strwythurau sefydliadol ategol.

7.2 Y Bwrdd lechyd

Bydd y Bwrdd lechyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch Galwedigaethol a ddaw drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad fel y cyfeirir ato yn y Cylch Gorchwyl (Atodiad 1 a 2). Mae'r grŵp wedi'i sefydlu i gynllunio, trefnu a monitro cydymffurfiaid sefydliadol â'i rwymedigaethau a dyletswyddau lechyd a diogelwch statudol, yn ogystal ag effaith unrhyw ddeddfwriaeth newydd ac arfaethedig ar y sefydliad. Bydd y canlynol yn cael eu gweithredu:

- Cwblhau cynllun gweithredu dadansoddi bylchau lechyd a Diogelwch.
- Gweithredu strategaeth 3 blynedd lechyd a Diogelwch Galwedigaethol.
- Tystiolaeth o adroddiadau hunanwerthuso Cyfarwyddiaeth/Corfforaethol.
- Gwneud archwiliadau (dadansoddiad blynyddol o'r bylchau) Tîm lechyd a Diogelwch, Codi a Chario, lechyd Galwedigaethol a Diogelwch.

- Digwyddiadau lechyd a Diogelwch gan gynnwys dadansoddi tueddiadau, gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd.
- Tystiolaeth o unrhyw gamau gorfodi a gyflwynwyd yn erbyn BIPBC a gwersi a ddysgwyd.
- Unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag lechyd a Diogelwch i'w huwchgyfeirio.

7.3 Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch Galwedigaethol

Bydd Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn darparu'r modd y gall rheolwyr a chynrychiolwyr staff ddatblygu a chynnal y broses rheoli lechyd a Diogelwch ar draws BIPBC a thrwy hynny gydymffurfio â gofynion adran 2(7) o'r Ddeddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. (1974). Bydd y Grŵp yn derbyn adroddiadau gweithgarwch a pherfformiad gan y Cyfarwyddiaethau/Ardaloedd a Swyddogaethau Corfforaethol ac yn cynnal trosolwg o broffil risg lechyd a Diogelwch BIPBC. Bydd y Grŵp yn anfon cofnodion a Materion o Bwys i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad fel y gellir eu hystyried fel rhan o'r materion ansawdd a diogelwch ehangach a nodwyd. Bydd materion o bwys yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd lechyd. Mae'r Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch yn sicrhau cydymffurfiaeth lechyd a Diogelwch â gofynion cyrff allanol megis Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, Awdurdod Ymglyfreitha'r Gwasanaeth lechyd Gwladol / Adran lechyd, Rhybudd Hysbysu am Beryglon GIG Cymru ac ati.

Mae gan y grŵp awdurdod dirprwyedig a bennwyd gan y Bwrdd i wneud penderfyniadau sy'n galluogi'r grŵp i gyflawni ei brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau. Er mwyn sicrhau trefniadau rheoli lechyd a Diogelwch parhaus ac effeithiol, bydd y grŵp yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â holl faterion lechyd a Diogelwch gan gynnwys Polisi BIPBC. Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r grŵp hwn yw:

- Monitro cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch statudol.
- Monitro cydymffurfiaeth â chynllun gweithredu lechyd a Diogelwch yr Awdurdod gweithredol lechyd a Diogelwch a chynlluniau gweithredu a ddatblygwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â chyrff allanol.
- Adolygu digwyddiadau anghlinigol i nodi tueddiadau a monitro cynnydd yn ymwneud ag ymchwiliadau newydd ac ymchwiliadau sydd heb eu datrys.
- Nodi anghenion ar gyfer eu datblygu ar draws y sefydliad drwy edrych ar dueddiadau mewn damweiniau ac asesu risg.
- Arwain y gwaith i leihau digwyddiadau RIDDOR a'r absenoldebau sy'n gysylltiedig â chostau hawliadau.
- Mynd i'r afael â materion sydd wedi'u huwchgyfeirio gan y Rheolwyr i'r Bwrdd neu faterion cyfatebol.
- Monitro rheolaeth a pherfformiad lechyd a Diogelwch.

7.4 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

Bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn derbyn cofnodion ac unrhyw faterion arwyddocaol i'w huwchgyfeirio o'r Grŵp Strategol lechyd a Diogelwch Galwedigaethol, yn ogystal ag adroddiadau Chwarterol ar gynnydd Cynlluniau lechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

8. Atodiad 1

Cylch Gorchwyl Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol

CYFLWYNIAD

Mae Adran 2(7) o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn nodi "*In such cases as may be prescribed it shall be the duty of every employer, if requested to do so by the safety representatives mentioned in subsections (4) and (5), to establish, in accordance with regulations made by the Secretary of State, a safety committee having the function of keeping under review the measures taken to ensure the Health and Safety at work of his employees and such other functions as may be prescribed.*" Mae'r trefniadau hyn yn cyd-fynd â Rheoliadau Pwyllgorau Diogelwch 1977 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogaion) 1996 (fel y'i diwygiwyd).

Sefydlwyd y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol i roi modd effeithiol o hwyluso dull partneriaeth o reoli risg Iechyd a Diogelwch ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae felly, yn cydymffurfio â gofynion Deddfwriaeth Statudol, codau ymarfer cymeradwy a dogfennau canllaw.

Mae cylch gorchwyl a threfniadau gweithredu'r Grŵp hwn wedi'u nodi isod.

CYFANSODDIAD

Diben y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yw darparu'r modd y gall rheolwyr a chynrychiolwyr staff weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a chynnal trefniadau rheoli iechyd a diogelwch ledled y Bwrdd Iechyd.

Bydd y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn sicrhau y cynhelir dull integredig o nodi a rheoli risgiau iechyd a diogelwch yn y gweithle ledled y sefydliad. Bydd y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn cefnogi datblygu diwylliant diogel cadarnhaol, a system rheoli diogelwch sy'n gwella gallu'r sefydliad i nodi a rheoli risgiau i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan eu gweithgarwch yn eu gwaith.

CWMPAS A DYLETSWYDDAU

1. Rhoi sicrwydd o ran rheoli risg Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn effeithiol ar draws holl weithgarwch a chyfleusterau'r Bwrdd Iechyd.
2. Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn cael eu cynnal rhwng Rheolwyr a Chynrychiolwyr Staff Iechyd a Diogelwch.
3. Rhoi sicrwydd bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol y Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a deddfwriaeth ategol.
4. Derbyn adroddiadau rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol gan bob Adran glinigol a chorfforaethol.
5. Monitro'r gwaith o gyflawni systemau risg Iechyd a Diogelwch ac adrodd ar berfformiad.
6. Monitro'r camau a gymerir i fynd i'r afael â risgiau iechyd a diogelwch galwedigaethol sylweddol o fewn y sefydliad.
7. Monitro'r gwaith o gyflawni cynllun gwella iechyd a diogelwch y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i feysydd gwella a nodwyd yn y sefydliad.

8. Parhau i ddatblygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a dogfennau ategol a threfniadau rheoli.
9. Adrodd ar berfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad iechyd a diogelwch allweddol y Bwrdd Iechyd.

PWERAU DIRPRWYEDIG A DYLETSWYDDAU CYFARWYDDWR GWEITHREDOL Y GWEITHLU A DATBLYGU SEFYDLIADOL
--

Mae gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol gyfrifoldeb arweiniol dros Reoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol o fewn y Bwrdd Iechyd. Dirprwywyd y pwerau, y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol canlynol i Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol gan y Prif Weithredwr:

- Cadeirio Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.
- Gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau sy'n seiliedig ar risg er mwyn rheoli risg iechyd a diogelwch galwedigaethol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau bod polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill sy'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i fodloni gofynion Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch Statudol yn cael eu gweithredu.
- Sicrhau bod cyngor a chanllawiau iechyd a diogelwch cymwys ar gael.
- Cyflwyno adroddiadau sicrwydd rheolaidd i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, i'w hystyried fel rhan o Lywodraethu Integredig y Bwrdd Iechyd.

AWDURDOD

Mae gan y Grŵp Strategol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol gyfrifoldeb am:

- Datblygu proffil risg a chynllun gwella iechyd a diogelwch.
- Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod risg iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r systemau rheoli iechyd a diogelwch.
- Monitro perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran rheoli iechyd a diogelwch.
- Gweithredu ac adolygu Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd yn flynyddol.
- Sefydlu Is-grwpiau i fynd i'r afael â materion o bwys megis datblygu gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer rheoli iechyd a Diogelwch e.e. Arweinwyr Iechyd a Diogelwch.
- Cadarnhau gweithdrefnau a chanllawiau i gefnogi'r Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.
- Adolygu tueddiadau digwyddiadau sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Adolygu digwyddiadau difrifol a adroddwyd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Cynnal trefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol o ran â Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Datblygu dangosyddion perfformiad iechyd a diogelwch trwy'r broses archwilio hunanasesu.

- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro mewn perthynas â Rheoli Diogelwch Tân, Diogelwch, Trais ac Ymddygiad Ymosodol a phynciau eraill a ddiffinnir gan y Grŵp.

AELODAETH

Cadeirydd	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Is-gadeirydd	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau Llafur (yn unol â chylch gorchwyl y Bartneriaeth Leol gan gynnwys cynrychiolwyr diogelwch gweithwyr) Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Cyfarwyddwr Meddygol Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrhau Ansawdd Cyfarwyddwr Meddygol neu Nyrsio Gofal Eilaidd Cyfarwyddwyr Ardal Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Arweinydd Diogelwch Tân Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol Cyfarwyddwr Cynorthwyol Atal a Rheoli Heintiau Pennaeth Rheoli Risg Pennaeth Pryderon Cleifion Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru Pennaeth Iechyd a Diogelwch Pennaeth Iechyd a Lles Galwedigaethol
Ysgrifennydd	Fel y'i pennwyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Yn bresennol	Efallai y bydd angen presenoldeb eraill ar y Grŵp i gael cyngor, cymorth a gwybodaeth fel mater o drefn mewn cyfarfodydd, fel y penderfynir gan y Cadeirydd.

Dirprwyon

Caniateir i aelodaeth y Grŵp benodi dirprwyon dynodedig a enwir.

CYFARFODYDD Y PWYLLGOR

Cworwm

Rhaid i saith aelod o leiaf, fod yn bresennol i sicrhau bod gan y Grŵp gworwm. O'r rhai sy'n bresennol, mae'n rhaid i o leiaf dri fod yn gynrychiolwyr Undebau Llafur a 4 aelod "Rheoli" yn cynnwys naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ac yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd, Diogelwch a Chydraddoldeb; Cynrychiolaeth o'r Uwch Adrannau

Amllder Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd bob deufis ac fel arall, fel y gwêl Cadeirydd y Grŵp yn angenrheidiol.

TREFNIADAU ADRODD A SICRWYDD

Bydd Cadeirydd y Grŵp yn:

- Adrodd yn ffurfiol, yn rheolaidd ac yn amserol l'r Bwrdd Iechyd ar weithgareddau'r Grŵp. Gan gynnwys cyflwyno Adroddiad Blynyddol.
- Cyflwyno cofnodion y Grŵp a materion o bwys i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i'w hystyried fel rhan o'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig ac i'r Bwrdd Iechyd.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i roi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, y Prif Weithredwr neu Gadeiryddion pwyllgorau/Grwpiau perthnasol eraill o unrhyw faterion brys/critigol a allai effeithio ar ddiogelwch staff ac eraill a gweithrediad a/neu enw da'r Bwrdd Iechyd.
- Rhoi sicrwydd i'r Grŵp Rheoli Risg drwy godi risgiau drwy'r strwythur llywodraethu yn ôl yr angen, a pharatoi adroddiadau chwarterol a blynyddol i'r Grŵp.

Is-strwythurau Llywodraethu

Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Grŵp Rheoli Risg a gadeirir gan y Prif Weithredwr. Mae'r Grŵp hefyd yn darparu adroddiadau sicrwydd i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd.

Bydd y Grŵp yn sefydlu is-grwpiau i gefnogi cyflwyno systemau rheoli iechyd a Diogelwch Galwedigaethol effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys:

Grŵp Arweinwyr (Hyrwyddwyr) Iechyd a Diogelwch

Grŵp Gweithredol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol

Grŵp Iechyd a Lles

Grŵp Rheoli Asbestos


Grŵp Diogelwch Dŵr

Grŵp Diogelwch Tân

Grŵp Rheoli Diogelwch

Yn ogystal, bydd Grŵp Iechyd a Diogelwch pob Uwch Adran yn atebol i'r Grŵp Strategol hwn o dan ei delerau Gwasanaeth

9. Atodiad 2: Strwythur adrodd y Bwrdd.



10. Cyfeiriadau

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac (1974)

2. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1999)
3. Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
4. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2022
5. Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005
6. Rheoliadau Rheoli Dirgryndod yn y Gweithle 2005
7. Rheoliadau Trydyn yn y Gweithle 1989
8. Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998
9. Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gweithle 2005
10. Rheoliadau Ymbelydredd sy'n Ïoneiddio 2017
11. Rheoliadau Rheoli Meysydd Electromagnetig yn y Gweithle 2016
12. Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gweithle 2010
13. Rheoliadau Mannau Cyfyng 1997
14. Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977
15. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992 (diwygiwyd 2002)
16. Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992
17. Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith (PUWER) 1998
18. Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi (LOLER) 1999
19. Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gweithle 1992
20. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013
21. Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992
22. Diwygio Rheoleiddio (Gorchymyn Diogelwch Tân) 2005
23. Corporate Manslaughter and Homicide Act 2007
24. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981
25. Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
26. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013
27. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996
28. Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (CDM) 2015
29. Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977
30. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Chyflogeion) 1996
31. HSG65 Rheolaeth Iechyd a Diogelwch Llwyddiannus 1997
32. Safonau Rheoli Straen
33. Deddf Cydraddoldeb 2010